

Rhaglen Gyflawn



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR BWADESTRIF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWADESTRIF SIROL
wrecsam

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR GWE

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD GWENER, 22AIN MEDI, 2017

Lleoliad

Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BF

Pwynt Cyswllt

Sioned Williams

01286 632729

SionedWilliams3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd: 19/09/2017)

CYD-BWYLLGOR GWE

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Cynghorydd Meirion Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorydd Garffild Lewis	Cyngor Bwrdeistref Conwy
Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynghorydd Gareth Thomas	Cyngor Gwynedd

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Rita Price	Esgobaeth Wrecsam
Diane Chisholm	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Mair Herbert	Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr

Swyddogion Heb Bleidlais

Delyth Molyneux	Cyngor Sir Ynys Môn
Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Conwy
Claire Homard	Cyngor Sir Y Fflint
Karen Evans	Cyngor Sir Ddinbych
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd
Ian Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Swyddogion yn bresennol

Arwyn Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Iwan G. Evans	Awdurdod Lletyol
Dafydd L. Edwards	Awdurdod Lletyol
Susan Owen Jones	Rheolwr Busnes GwE
Dr Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Rhys Howard Hughes	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Steve Vincent	Llywodraeth Cymru
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad buddiant personol.

3. MATERION BRYD

I nodi unrhyw fater sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 5 - 9

(copi'n atodedig)

5. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 21 10 - 67 MAWRTH 2017

6. ADRODDIAD CYCHWYNNOL AR BERFFORMIAD RHANBARTH 68 - 133

7. ARGYMHELLION ESTYN - CYNNYDD 134 - 145

8. RHEOLI PERFFORMIAD STAFF GWE 146 - 159

9. TARGED ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 160 - 161

10. CYLLIDEB GWE 2017-18 - ADOLYGIAD CHWARTER 1 162 - 166

11. CALENDR CYFARFODYDD 167 - 169

CYD-BWYLLGOR GwE 20.07.2017

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Gareth Thomas (Cyngor Gwynedd), Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Meirion Jones (Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Sir Ddinbych), Ian Roberts (Sir y Fflint).

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

Swyddogion heb bleidlais: Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Sir Gwynedd), Iona Evans (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Julian Molloy (Cyngor Sir Dinbych)

Hefyd yn bresennol: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Dr Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol) – Cyngor Gwynedd, Dafydd L Edwards (Cyngor Gwynedd), Einir Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd).

1. ETHOL CADEIRYDD

Cynigiodd Meirion Jones ac eiliodd Huw Hilditch-Roberts y Cynghorydd Gareth Thomas yn Gadeirydd.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Cynigiodd Huw Hilditch-Roberts ac eiliodd Meirion Jones y Cynghorydd Phil Wynn yn Is-gadeirydd.

3. YMDDIHEURIADAU

Cyng. Gareth Jones (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Mrs K Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwyr), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Rita Price (Esgobaeth Wrecsam), Diane Chrisholm (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Mair Herbert (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Martyn Gray (Llywodraeth Cymru), Delyth Molyneux (Cyngor Sir Ynys Môn), Cynghorydd Garffild Lewis (Cyngor Conwy)

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Derbyniwyd y cofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 8 Mawrth, 2017, fel rhai cywir.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arwyn Thomas gan nodi nad oedd y cynnwys wedi newid ers ei drafod ym Mawrth 2017. Tywysodd AT yr Is-grŵp drwy'r adroddiad a nodwyd y canlynol:

- Mae'r adroddiad wedi ei ddiweddarau ers yr adroddiad drafft a gyflwynwyd ym mis Mawrth.
- Mae'r adroddiad yn adnabod y meysydd sydd angen cynnydd mewn perfformiad a fydd yn cael eu blaenoriaethu yn Gynllun Busnes GwE – bydd y cynllun yma yn ffurfio manyldeb cynlluniau penodol yr awdurdodau lleol.
- Bydd angen ffocysu nawr ar y camau nesaf sydd yn cynnwys ailstrwythuro'r gwasanaeth, rhoi pwyslais ar gyfnod allweddol pedwar, a symleiddio'r model llywodraethu.
- Bydd angen i aelodau sefydlu rheolau ac ethos tîm GwE mewn ysgolion i sicrhau bod pawb yn cefnogi'r un gwasanaeth, ar lefel ysgol, awdurdod a rhanbarth
- Bydd angen i awdurdodau lleol edrych ar eu problemau unigol ac i weithio mewn partneriaeth gyda GwE yn rhanbarthol yw datrys.

Nododd y Cynghorydd Ian Roberts bod Cyfarwyddwr Dros Dro Sir y Fflint yn anhapus gyda'r lefelau perfformiad a'u bod yn gweithio i wella hyn ar frys. Cododd pryderon ynglŷn â than variant o £300,000 ar Ymgynghorwyr Her. Dywedodd bod gronfeydd dros ben GwE o £900,000 yn annerbyniol pan mae perfformiad Sir y Fflint yn dirywio. Awgrymodd y byddai'r arian hyn yn cael ei wario yn well mewn ysgolion.

Nododd Dafydd Edwards bod y tan variant yn gamarweiniol. Esboniodd bod yr Ymgynghorwyr Her a briodolir i danvariant ar yr awdurdodau lleol wedi bod yn gwneud busnes arferol a bod y grantiau gan y Llywodraeth sy'n ymwneud a'i gwaith y tu allan i'w rôl arferol wedi cyrraedd yn hwyr.

Nododd y Cynghorydd Ian Roberts bod Cyfarwyddwr Dros Dro Sir y Fflint yn anhapus gyda'r perfformiad yr awdurdod a'u bod angen gweithio ar frys i wella hyn. Cododd bryderon ynglŷn â than variant pan mae perfformiad Sir y Fflint yn dirywio. Awgrymodd y dylai'r arian gael ei wario i wella perfformiad yr ysgolion sy'n tanberfformio.

Nododd Dafydd Edwards bod y tan variant yn gamarweiniol. Esboniodd bod yr Ymgynghorwyr Her a briodolir i danvariant ar yr awdurdodau lleol wedi bod yn gwneud busnes arferol a bod y grantiau gan y Llywodraeth sy'n ymwneud a'i gwaith y tu allan i'w rôl arferol wedi cyrraedd yn hwyr. Nodod Arwyn Thomas fod GwE yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdodau a'r ysgolion i godi safonau.

PENDERFYNWYD: Cynigiodd Huw Hilditch-Roberts, ac eiliodd Meirion Jones derbyn a chymeradwyo yr Adroddiad Blynyddol.

8. COFRESTR RISG

Cyflwynwyd y Gofrestr Risg gan AT. Tywysodd AT yr Is-grŵp drwy'r adroddiad a nodwyd y canlynol:

- Bydd y rhestr, sydd yn cynnwys risgiau ar draws y rhanbarth yn cael ei ail werthuso wedi canlyniadau'r Haf ar gyfer mis Medi a bydd yn debyg y bydd rhai materion yn dod oddi ar y gofrestr.

PENDERFYNWYD: Cynigiodd Phil Wynn ac eiliodd Meirion Jones dderbyn a chymeradwyo y Gofrestr Risg fel mae'n sefyll. Ychwanegu Y Gofrestr Risg yn ôl ar yr agenda ym mis Medi er mwyn i'r Is-grŵp ail-wyntyllu beth fydd yn cael ei gynnwys ynddo.

9. CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION ESTYN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan AT a nodwyd y canlynol :

Mae cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn argymhellion yr adroddiad ond bydd angen ail-drafod yng nghyd-destun effaith yn dilyn derbyn canlyniadau'r Haf.

Cafwyd adroddiad byr gan Alwyn Jones ble trafodwyd CA4 yn dilyn y manylebau newydd mewn Cymraeg, Mathemateg a Saesneg. Nododd Alwyn Jones bwysigrwyd cymharu ffigyrau canlyniadau gyda ffigyrau Awdurdodau eraill, ac nid gyda chanlyniadau y blynyddoedd blaenorol. Cytunwyd bod angen sefydlu gwaelodlin yn Haf 2017.

Nododd Meirion Jones yr anhawster bod yr Awdurdod ddim yn cael gwybod am y canlyniadau tan fore y canlyniadau. Cadarnhaodd Arwyn Thomas bod y mater wedi ei godi gyda Chymhwysterau Cymru, ac y dylai pawb allu ymddiried yn ei gilydd o ran materion cyfrinachedd, ond roedd Cymhwysterau Cymru yn gadarn yn eu safiad.

Cadarnhaodd Arwyn Thomas bod yr amserlen ar gyfer ymweliad ESTYN yr wythnos yn cychwyn 16 Hydref 2017 a gofynnodd i aelodau y Cyd-bwyllgor geisio bod ar gael ar gyfer sgwrs gyda Swyddogion Estyn. Holodd Arwyn Thomas tybed a fyddai diddordeb ymysg yr aelodau mewn gweithdy cyn y cyfarfod i drafod yr adroddiad.

Nododd Huw Hilditch-Roberts bod y sefyllfa secondiadau o ysgolion i GwE yn creu peth gur pen. Nododd yr angen am brotocol ar gyfer rhyddhau Penaethiaid, fyddai yn lleihau rywffaint ar y tensiwn o ran anghenion GwE/yr unigolyn/yr ysgol a'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD: Cynigiodd Huw Hilditch-Roberts ac eiliodd Phil Wynn i dderbyn a chymeradwyo yr adroddiad. Cytunwyd i gynnal gweithdy i aelodau ym mis Medi.

10. AMCANION 3 BLYNEDD GwE

Cafwyd diweddariad gan AT o amcanion GwE a ble gobeithir y bydd GwE erbyn 2020 a nodwyd y canlynol:

- Mae Cynllun Busnes GwE 2017-18 wedi gosod targedau safonau addysgu a dysgu.
- Bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno yn ffurfiol i'r Cydbwyllgor ym mis Medi.

Roedd AT yn awyddus i aelodau drafod y Cynllun gyda phenaethiaid yn eu hawdurdodau lleol. Croesewir unrhyw adborth a bydd sylwadau/awgrymiadau yn cael eu bwydo mewn i'r Cynllun.

PENDERFYNWYD: Yr is-grŵp i addasu'r Cynllun ym mis Medi drwy glymu i mewn cynlluniau'r awdurdodau lleol a blaenoriaethu amcanion.

11. TREFNIADAU GWEITHREDU GwE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arwyn Thomas.

PENDERFYNWYD: Cafodd yr adroddiad ei chynnig gan Phil Wynn, a'i heilio gan Meirion Jones a'i dderbyn gan y Cyd-bwyllgor.

12. CYFRIFON 2016-17

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Edwards gan gadarnhau bod yr elfen Datganiad Cyfrifon yn elfen statudol yn unol â Deddf gwlad. Tynnodd Dafydd Edwards sylw at

- Tanwariant Ymgynghorwyr Her £300,000
- Brocera £139,000

Cwestiynodd Phil Wynn tybed a oes modd gwario y reserfau ar unrhyw beth? Cadarnhawyd bod y prif reserfau ar gael ar wahân at ddibenion TG a phensiynau. Nododd Arwyn Thomas ei fod angen sgwrs bellach i drafod y defnydd o reserfau.

PENDERFYNWYD : Cynigiodd Meirion Jones ac Eiliodd Phil Wynn dderbyn a chymeradwyo yr adroddiad.

13. DATGANIAD LLYWODRAETHU 2016-17

Awgrymodd Arwyn Thomas bod Datganiad Llywodraethu, sydd yn ymwneud a phriodoldeb ymddygiad a phriodoldeb llywodraethu yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Cynigiodd Meirion Jones ac eiliodd Phill Wynn y datganiad a'i cymeradwyodd gan y Cyd-bwyllgor.

14. FFRAMWAITH DEILLIANNAU-GRANT GWELLA ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arwyn Thomas a nodwyd y canlynol:

- Fel Consortiwm, rydem angen trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â rhaglen y gyllideb dros y 2-3 mlynedd nesaf, gyda chais i amodau'r grant fod yn fwy hyblyg i gyfarch anghenion lleol
- Mae angen model cyllideb debyg dros y pedwar rhanbarth gyda grantiau yn canolbwyntio ar gefnogi athrawon a gwella perfformiad plant.

PENDERFYNWYD: Cynigiodd Meirion Jones ac eiliodd Phil Wynn yr adroddiad a'i derbyniwyd a'i gymeradwyo gan y Cydbwyllgor.

15. CALENDR CYFARFODYDD 2017-18

Nododd Arwyn Thomas fod Susan Owen Jones wedi dyrannu dyddiadau penodol i gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

Atgoffodd Arwyn Thomas y Cydbwyllgor bod presenoldeb aelodau yn y cyfarfodydd yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i liwio'r drafodaeth.

Nododd Iwan Evans bod angen cadw cworwm o leiafswm tri aelod i bleidleisio.

Ychwanegodd y Cadeirydd bod cydweithio yn elfen sylfaenol o'r Cydbwyllgor a'i fod yn fodlon i gynnal cyfarfodydd ychwanegol pe byddai aelodau yn dymuno i drafod materion ym mhellach.

Penderfynwyd y byddai'r Cydbwyllgor, yn y dyfodol, yn cychwyn yn ffurfiol am 10:30am ac yn anffurfiol am 9.30 neu 10.00 i alluogi aelodau i gael cyngyfarfod yn anffurfiol.

16. Unrhyw Faterion Eraill

Trefniadau craffu'r pwyllgor : mae'r cytundeb craffu rhanbarthol yn y broses o gael ei gadarnhau. Penderfynwyd y bydd adroddiad ar y drefn craffu ar agenda cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00am a daeth i ben am 12:45.

Eitem 5

CYFARFOD	Cyd-Bwyllgor GwE
DYDDIAD	22 Medi 2017
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – • Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad; • Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru; • Llythyr Cynrychiolaeth.
ARGYMHELLIAD	Derbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr.
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 20 Gorffennaf 2017 o Gyd-Bwyllgor GwE:

- 1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor GwE.
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blyneddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chod CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 1.6 Roedd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2. CYFRIFON 2016/17

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2016/17 i'r cyfarfod 20 Gorffennaf 2017 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro", ynghyd â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2016/17 (yn amodol ar archwiliad) ar ffurf safonol statudol.

3. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Deloitte, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte. Gweler bod paragraff 8 yn nodi "Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol".

4. CYFRIFON TERFYNOL 2016/17

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2016/17. Mae'r newidiadau ers y fersiwn amodol ar archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau, sef –

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2016/17 (yn dilyn archwiliad)

6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.

7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Cyd-Bwyllgor GwE

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Cyhoeddwyd: Medi 2017

Cyfeirnod y ddogfen:

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog. gwytbodaeth@archwilio.cymru.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Roedd y tîm Deloitte a oedd yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith yn cynnwys Ian Howse a'r Arweinydd Ymgysylltu, Clare Edge.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae yna rhai materion i'w hysbysu i chi cyn eu cymeradwyaeth.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Canlyniadau'r archwiliad	5
Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17	7
Annibyniaeth a gwrthrychedd	7

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	8
Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyd-Bwyllgor GwE	11
Atodiad 3 – Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17	13

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
- 2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
- 3 Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyd-Bwyllgor GwE yw £310,000. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
- 4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE, ar gyfer 2016-17 y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

- 6 Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ar 30 Mehefin 2016, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth, ac ar y dyddiad y gwnaethom gyflwyno'r adroddiad hwn, roedd y gwaith archwilio canlynol heb ei gwblhau:
 - a. Derbyn dogfennau cefnogi mewn perthynas â'r Cyfraniad Rhwydwaith Arloesi (£112k) er mwyn sicrhau dosbarthiad diwedd blwyddyn priodol;
 - b. Cwblhau adolygiad sicrwydd ansawdd Partneriaid ac annibynnol; a
 - c. Derbyn y llythyr sylwadau.
- 7 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Swyddog Adran 151 a'r Uwch Reolwr Cyllid.

Adroddiad archwilio arfaethedig

- 8 **Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol** unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 9 Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**.

Canlyniadau'r archwiliad

Camddatganiadau

- 10 Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol.

Diffygion datgelu

- 11 Isod ceir y diffygion datgelu a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd â'r rheolwyr ond sydd heb eu cywiro o hyd, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau dros unrhyw achos o'r fath.
- Partïon Cysylltiedig
Ar gyfer un aelod o staff ni chafwyd ffurflen datgan buddiannau 2016/17, ac felly defnyddiwyd ffurflen 2015/16 i gwblhau'r nodyn i'r datganiadau ariannol.

Risgiau Sylweddol

- 12 Yn ein Cynllun Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod ein proses gynllunio. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.

Risg archwilio ariannol

Incwm a gwariant grantiau

Mae'r Pwyllgor yn cael arian grant sylweddol, y caiff y rhan fwyaf ohono ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae risg bod y datganiadau ariannol yn cynnwys neu'n eithrio'r arian grant hwn yn amhriodol gan y bydd angen i'r Pwyllgor asesu p'un a yw'n gweithredu fel asiant neu brif gorff.

Ymateb archwilio arfaethedig

- Roedd fy nhîm archwilio yn deall polisi cydnabyddiaeth y Pwyllgor ar gyfer incwm a gwariant grantiau a oedd yn cynnwys adolygiad o ran p'un a oedd y Pwyllgor yn gweithredu fel prif gorff neu asiant. Gwnaethom gynnal profion manylder i gadarnhau p'un a fodlonwyd meini prawf cydnabyddiaeth.

Ni nodwyd unrhyw faterion.

Risg archwilio ariannol

Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau

Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].

Ymateb archwilio arfaethedig

Gwnaeth fy nhîm archwilio y canlynol:

- profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dull o ddadansoddi ddata i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfrau ar gyfer nodweddion o ddiddordeb;
- cynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion dyddlyfrau i'r cyfrifyfr ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a
- gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol gan gynnwys rhai â phartïon cysylltiedig.

Ni nodwyd unrhyw faterion.

Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

- 13 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. **Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:**
- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Roedd y wybodaeth a roddwyd yn berthnasol, dibynadwy, cymaradwy, ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol heb duedd, ac yn deg a chllir.
 - **Ni ddaethom ar draws anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.**
 - **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
 - **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt. Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.**
 - **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17

- 14 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn **Atodiad 4**. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

Annibyniaeth a gwrthrychedd

- 15 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
- 16 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyd-Bwyllgor GwE sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

22 Medi 2017

Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2016-17

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o Adroddiad Cydnabyddiaeth a archwilir) Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifeg Awdurdod Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a

- mynediad anghyfngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyd-Bwyllgor GwE ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu - Cyd-Bwyllgor GwE

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyd-Bwyllgor GwE ar 22 Medi 2017.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dafydd L Edwards

Penaeth Cyllid

Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

Cynghorydd Gareth Thomas

Cadeirydd

Cyd-Bwyllgor GwE

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol at Gyd-Bwyllgor GwE

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor GwE a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyd-Bwyllgor GwE a pha un a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor GwE

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

29 Medi 2017

Atodiad 3

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

Mater yn deillio 1 – Amseroldeb Codi Anfonebau	
Canfyddiadau	Cofnodir bod taliad o £75k yn ymwneud â 2015/16 yn ddyledus gan Gyngor Gwynedd i GwE. Fodd bynnag, nodwyd gennym, ar 19 Gorffennaf 2017, nad anfonwyd anfoneb gan GWE. Gan fod y ddyled hon bellach dros flwydd oed, rydym wedi cynnwys canfyddiad er mwyn sicrhau yr anfonir anfonebau gwerthu yn brydlon yn y dyfodol.
Blaenoriaeth	Isel
Argymhelliad	Argymhellir bod y rheolwyr yn sicrhau bod anfonebau yn cael eu hanfon yn brydlon gan fod risg na na chaiff cofnodion cyfrifyddu priodol eu gwneud yn y flwyddyn ariannol gywir. O ystyried bod Cyngor Gwynedd a GWE yn rhannu'r un cyfrif banc, mae'n lleihau'r risg na chesglir dyledion, ond petai'r broblem hon yn fwy eang gan fod risg na chaiff dyledion eu casglu'n brydlon a all arwain at broblemau llif arian parod.
Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr	Do
Ymateb y rheolwyr	Byddwn yn cydymffurfio â'r argymhelliad uchod yn y dyfodol.
Dyddiad gweithredu	Yn syth

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Cyd-Bwyllgor GwE
(Cyngorau Conwy, Dinbych, Fflint,
Gwynedd, Môn a Wrecsam)

DATGANIAD O'R
CYFRIFON
2016/17

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 - 4
Datganiad Cyfrifoldebau	5
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	6
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	7
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	8
Y Fantolen	9
Datganiad Llif Arian	10
Nodiadau i'r Cyfrifon	11 – 32
Adroddiad yr Archwiliwr	33 - 34
Atodiad A – Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	35 - 41

ADRODDIAD NARATIF

RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cyngorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cyngorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2016/17 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 6 i 32. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2016/17*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw yn ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blyneddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwech Cyngor isod fel a ganlyn am 2016/17 :

Conwy	15.40%
Dinbych	15.18%
Fflint	22.67%
Gwynedd	17.77%
Ynys Môn	10.12%
Wrecsam	18.86%
Cyfanswm	100%

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Y Fantolen** - Sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2017.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2016/17 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

GWARIANT REFENIW YN 2016/17

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 7 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel Cost Gwasanaethau yn £15,720k yn ystod 2016/17, gyda'r sefyllfa net yn (£406k).
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2016/17 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2017. Gofynnwyd am gymeradwyaeth a lloadau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant o

£378k i reserf penodol.

- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalen 7 a 8 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad. Ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb £'000	Gwir £'000	Gwahaniaeth £'000
Gwariant ar Weithgareddau	16,570	15,848	(722)
Incwm			
Cyfraniadau'r Cynghorau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd:			
Conwy	(631)	(631)	0
Dinbych	(622)	(622)	0
Fflint	(929)	(929)	0
Gwynedd	(728)	(728)	0
Ynys Môn	(415)	(415)	0
Wrecsam	(772)	(772)	0
Incwm Arall	(12,473)	(12,129)	344
(Tanwariant)/Gorwariant Net	0	(378)	(378)

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng 'Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad Perfformiad (Alldro)	*Addasiad Trawsddodiad	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	*Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo	Datganiad Incwm a Gwariant
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant	15,848	(75)	15,773	(53)	15,720
Incwm	(16,226)	100	(16,126)	0	(16,126)
Cost Gwasanaethau Net	(378)	25	(353)	(53)	(406)

* Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at gyfraniad i ac o reserfau, a'r golofn Addasiadau rhwng sail Ariannu a'r sail Cyfrifo yn cyfeirio at addasiadau technegol pensiynau ac absenoldebau cronedig.

- Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**
Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-
 - Newid o £5,244k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
 - Cynnydd o £2,015k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21).
- Materion Eraill**
 - Bu problemau digynsail yn y sefyllfa ariannol fyd-eang yn y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, bu'n angenrheidiol i'r Cyd-Bwyllgor gymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan hefyd gadw lefel darbodus o reserfau.

- Ers y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, bu cryn ansicrwydd economaidd. Disgwylir i hyn barhau am gyfnod a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor yn 2017/18 a'r tymor canolig.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ddarpariaethau o £3k a reserfau a glustnodwyd o £895k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9 a 14.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymadau'r Gronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi cynyddu £3,714k i £6,945k yn 2016/17. Gweler Nodyn 25 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn.

Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 11.

Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Nid oes unrhyw newid i'r polisiau cyfrifo yn ystod y flwyddyn ariannol 2016/17.

GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Hywyn Lewis Jones
Uwch Gyfrifydd
01286 679145

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

CYD-BWYLLGOR GwE

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor. Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad ei faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw.

Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

Y Cyngorydd Gareth Thomas
Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GWE

22 Medi 2017

CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

14 Medi 2017

Tud. 31

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2015/16				2016/17			
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Cyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Cyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr	
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	
3,028	25	3,053	Gweithwyr	3,448	(53)	3,395	
41	0	41	Eiddo	204	0	204	
148	0	148	Cludiant	139	0	139	
1,007	0	1,007	Gwasanaethau a Chyflenwadau	1,593	0	1,593	
9,675	0	9,675	Trydydd Parti	10,389	0	10,389	
(14,144)	0	(14,144)	Incwm	(16,126)	0	(16,126)	
(245)	25	(220)	Cost Gwasanaethau	(353)	(53)	(406)	
0	0	0	Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	
0	149	149	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	113	113	
0	0	0	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	
(245)	174	(71)	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(353)	60	(293)	
(297)			Balans Agoriadol y Gronfa Cyffredinol	(542)			
(245)			Llai (Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Cyffredinol yn y flwyddyn	(353)			
(542)			Balans Cau y Gronfa Cyffredinol	(895)			

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

2015/16			Nodyn	2016/17		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
3,053	0	3,053	Gweithwyr	3,395	0	3,395
41	0	41	Eiddo	204	0	204
148	0	148	Cludiant	139	0	139
1,007	0	1,007	Gwasanaethau a Chyflenwadau	1,593	0	1,593
9,675	0	9,675	Trydydd Parti	10,389	0	10,389
0	(14,144)	(14,144)	Incwm	0	(16,126)	(16,126)
13,924	(14,144)	(220)	Cost Gwasanaethau	15,720	(16,126)	(406)
0	0	0	Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0
149	0	149	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	113	0	113
0	0	0	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0
14,073	(14,144)	(71)	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	15,833	(16,126)	(293)
		(1,578)	Ailfesuriadau o'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net			3,666
		(1,578)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			3,666
		(1,649)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			3,373

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu (Ddiffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyd-Bwyllgor.

		Gwybodaeth ychwanegol		Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau			
	Nodyn	Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi £'000	Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £'000	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy £'000	Reserfau na ellir eu defnyddio £'000	Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor £'000
Balans 31 Mawrth 2015 a ddygwyd ymlaen		0	(297)	(297)	(297)	4,697	4,400
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2015/16</u>							
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		(71)	0	(71)	(71)	0	(71)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	0	0	(1,578)	(1,578)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(71)	0	(71)	(71)	(1,578)	(1,649)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(174)	0	(174)	(174)	174	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd		(245)	0	(245)	(245)	(1,404)	(1,649)
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	9	245	(245)	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2015/16		0	(245)	(245)	(245)	(1,404)	(1,649)
Balans 31 Mawrth 2016 a ddygwyd ymlaen		0	(542)	(542)	(542)	3,293	2,751
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2016/17</u>							
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		(293)	0	(293)	(293)	0	(293)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	0	0	3,666	3,666
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(293)	0	(293)	(293)	3,666	3,373
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(60)	0	(60)	(60)	60	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd		(353)	0	(353)	(353)	3,726	3,373
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	9	353	(353)	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2016/17		0	(353)	(353)	(353)	3,726	3,373
Balans 31 Mawrth 2017 a ddygwyd ymlaen		0	(895)	(895)	(895)	7,019	6,124

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymïadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau/(ymrwymïadau) net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymïadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddeler gan y Cyd-Bwyllgor.

31 Mawrth 2016 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2017 £'000
7	Dyledwyr Tymor Hir		3
7	Asedau Tymor Hir		3
1,447	Dyledwyr Tymor Byr	11	3,933
1,561	Arian a Chyferthoedd Arian	12	543
3,008	Asedau Cyfredol		4,476
(2,406)	Credydwyr Tymor Byr	13	(3,299)
(2)	Darpariaethau Tymor Byr	14	(3)
(127)	Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw	21	(356)
(2,535)	Ymrwymïadau Cyfredol		(3,658)
(3,231)	Ymrwymïad Pensiwn	25	(6,945)
(3,231)	Ymrwymïadau Tymor Hir		(6,945)
(2,751)	Asedau Net		(6,124)
(542)	Reserfau Defnyddiadwy	15	(895)
3,293	Reserfau na ellir eu defnyddio	16	7,019
2,751	Cyfanswm Reserfau		6,124

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd.

2015/16 £'000	Nodyn	2016/17 £'000
(71) (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		(293)
(2,247) Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol (<i>credydwyr, dyledwyr a pensiwn</i>)	17	1,314
(2,318) Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		1,021
(5) Gweithgareddau Buddsoddi		(3)
(2,323) (Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian		1,018
762 Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd		(1,561)
(1,561) Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd		(543)

*Sefyllfa Llif Arian yn unol â Pholisi Cyfrifo 1.3.

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO

1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2016/17 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2017. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17* a'r *Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2016/17*, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2014.

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisiâu perthnasol yn unig.

1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn cymryd lle, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a phan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na phryd fydd taliadau'n cael eu gwneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

1.3 Arian a Chyferwerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

1.4 Buddiannau Gweithwyr

1.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r cronriad yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sydd yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol ddilynol, sef y flwyddyn mae'r gweithiwr yn derbyn y budd o'r gwyliau. Mae cost y cronriad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddilef ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau fel bod cost y gwyliu yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliu.

1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn tâl diswyddo gwirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronïad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'n ôl y cynnig o'r buddion hynny neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu i'r pensiynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi yn eu lle, y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-p-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y Gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig:

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 2.6% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreiglaid amser sy'n mynd yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi yn eu lle'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Adrodd Ryngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) yng Nghymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion IAS19.

1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau wedi dyddiad y fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd â amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth mwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail cronïadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

1.9 Costau heb eu Dosrannu

Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau cefnogol canolog yn cael eu dyrannu i'r rhaniad gwasanaeth. Mae'r eitemau sydd yn cael eu heithrio o'r driniaeth yma yn cael eu diffinio fel Costau heb eu Dosrannau ac yn cynnwys cost buddiannau dewisol ddyfarnwyd i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

1.10 Darpariaethau

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymïadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Dosberthir y darpariaethau hyn fel ymrwymïadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynol ar natur bob darpariaeth.

1.11 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

NODYN 1 – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'Reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

1.12 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy'. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestrriad TAW Cyngor Gwynedd.

1.13 Dyledwyr a Chredydwy

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côt Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm yn berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, p'run a'u os yw'r taliadau a'r derbyniadau wedi eu talu neu eu derbyn a'i peidio yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.14 Gweithrediadau wedi eu Cyd-reoli

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu hymgyrnwyr â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithred sydd wedi ei Gyd-reoli.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Nid oedd newidiadau i bolisiau cyfrifeg yn ystod 2016/17.

NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwylidig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eto eu mabwysiadu gael ei ddatgan.

Mae'r safonau cyfrifeg gysylltiedig sydd yn y Côt Ymarfer 2017/18 yn effeithio ar ddatganiadau o fewn y cyfrifon Pensiwn.

Mae'n ofynnol fod y Côt yn weithredol o 1 Ebrill 2017 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2016/17.

NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau yr asedau ac ymrwymadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys thybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiad proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiau yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu selio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2017 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 24 a 25

NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- Newid o £5,244k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16)
- Cynnydd o £2,015k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21).

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2016/17	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i) £'000	Gwahaniaethau Eraill (ii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Gweithwyr	0	(65)	12	(53)
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	(65)	12	(53)
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	113	0	113
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	48	12	60

2015/16	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i) £'000	Gwahaniaethau Eraill (ii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Gweithwyr	0	16	9	25
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	16	9	25
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	149	0	149
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	165	9	174

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(i) Newid Net gogyfer ag Addasiadau Pensiynnau

Newidiadau Net gogyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* IAS 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Gogyfer â **Gwasanaethau** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan yr awdurdod fel y caniateir trwy statud a'r amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Gogyfer ag **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** – y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn DIGC.

(ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/debryniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Gogyfer â **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a ennillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Gogyfer ag **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol gogyfer a gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

2016/17		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU		
	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25)	(734)	734
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	686	(686)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(12)	12
Cyfanswm Addasiadau	(60)	60

2015/16		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU		
	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25)	(741)	741
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	576	(576)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(9)	9
Cyfanswm Addasiadau	(174)	174

NODYN 9 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol.

Reserfau a Glustnodwyd

	Reserfau Cyd-Bwyllgor GwE £'000
Balans 31 Mawrth 2016	542
<u>Trosglwyddiadau:</u>	
Rhwng Cronfeydd	0
Mewn	453
Allan	(100)
Balans 31 Mawrth 2017	895

NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2015/16 £'000		2016/17 £'000
149	Llog net yr ymrwymiadau/(asedau) buddion diffiniedig net	113
149 Cyfanswm		113

NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Llywodraeth Cymru	1,218	2,697
Cyrff Llywodraeth Ganolog	54	67
Awdurdodau Lleol Eraill	125	1,081
Endidau Eraill ac Unigolion	50	88
Cyfanswm	1,447	3,933

NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod neu orddrafft banc wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Arian Mewn Llaw	1,561	543
Arian a Chyferthoedd Arian	1,561	543
Gorddrafft Banc	0	0
Cyfanswm	1,561	543

NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Llywodraeth Cymru	88	113
Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill	65	76
Awdurdodau Lleol Eraill	1,704	2,563
Endidau Eraill ac Unigolion	549	547
Cyfanswm	2,406	3,299

NODYN 14 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 9.

	Balans ar 31 Mawrth 2016 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2017 £'000
<u>Darpariaethau Tymor Byr</u>				
Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd	(2)	(1)	0	(3)
	(2)	(1)	0	(3)

Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd – darpariaeth ar gyfer gofynion cynllun prydlesu ceir staff.

NODYN 15 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadowy'r Cyd-Bwyllgor.

NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2016		31 Mawrth 2017
£'000		£'000
(3,231)	Reserf Pensiynau	(6,945)
(62)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(74)
(3,293)	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	(7,019)

Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blyneddodd o wasanaeth, gyda'r rhwymedigaeth yn diweddar i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu ariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu yn y diwedd talu pensiwn ble mae'n bennaf gyfrifol. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enilledig gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol ble mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2015/16		2016/17
£000		£000
(4,644)	Balans 1 Ebrill	(3,231)
1,578	Ailfesuriad (ymrwymadau) / asedau buddion diffiniedig net (Nodyn 25)	(3,666)
(741)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(734)
576	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	686
(3,231)	Balans 31 Mawrth	(6,945)

NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy Gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymeryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2015/16 £000	2016/17 £000
(53) Balans 1 Ebrill	(62)
(9) Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(12)
(62) Balans 31 Mawrth	(74)

NODYN 17 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2015/16 £'000	2016/17 £'000
1,873 (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyd	(893)
(3,951) Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr	2,485
(164) Ymrwymiad Pensiwn	(48)
(5) Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaeth	(230)
(2,247)	1,314

NODYN 18 – DIGWYDDIADAU WEDI DYDDIAD Y FANTOLEN

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen.

NODYN 19 – TALIADAU I SWYDDOGION

19a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer gweithwyr sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sydd gyda chyflog o rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy a hefyd gyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

2015/16				Uwch Swyddogion	2016/17			
Cyfraniadau		Costau			Cyfraniadau		Costau	
Pensiwn		Eraill			Pensiwn		Eraill	
Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm
£	£	£	£		£	£	£	
85,482	22,062	0	107,544	Prif Swyddog ¹	50,118	12,937	0	63,055

1) Deilydd yn y swydd hyd at ddiwedd Hydref 2016

2) Ers 1 Tachwedd 2016, mae Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro i GwE ar sail rhan amser. Mae wedi ei benodi'n ffurfiol gan Cyngor Gwynedd, ac mae GwE yn ad-dalu 80% o'i gostau cyflog a thâl eraill cyfwerth â £43k (yn cynnwys costau Yswiriant Gwladol cyflogwr).

19b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2015/16 a 2016/17.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:			
Nifer yn 2015-16		Nifer yn 2016-17	
Cyfanswm		Cyfanswm	
3	£60,000 - 64,999	2	
1	£65,000 - 69,999	2	

NODYN 20 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2015/16	2016/17
£'000	£'000
8	8
Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	

Yn 2015/16, apwyntwyd Deloitte, yn archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, ac felly GwE, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

NODYN 21 – INCWM GRANT

21a. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2015/16		2016/17	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
Llywodraeth Cymru -				
Her Ysgolion Cymru	1,291		2,108	
TGAU, PISA a Llythrennedd Gwyddoniaeth	710		1,058	
CPCP - Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth	93		129	
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal *	586		672	
Rhwydwaith Ysgolion Arloesi	338		1,608	
Cefnogaeth Llythrennedd a Rhifedd a Ieithoedd				
Tramor Modern	250		23	
Canolfannau Rhagoriaeth Ieithoedd Tramor Modern	137		120	
Dysgu yn Cymru Digidol (LiDW)	102		113	
Arall	173		114	
	3,680		5,945	
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall				
Cyngor Chwaraeon Cymru	205		181	
Cyngor Gweithlu Addysg	0		76	
	205		257	
Grantiau a Chyfraniadau eraill				
Cyfraniadau'r Cyngorau tuag at y Gwasanaeth Craidd				
Conwy	640		631	
Dinbych	628		622	
Fflint	929		929	
Gwynedd	734		728	
Ynys Môn	418		415	
Wrecsam	778		772	
	4,127		4,097	
Grant Gwella Addysg (GGA) * :				
Ariannu Cyfatebol gan Gyngorau				
Conwy	67		67	
Dinbych	363		346	
Fflint	88		87	
Gwynedd	579		551	
Ynys Môn	307		293	
Wrecsam	98		0	
Llywodraeth Cymru	4,350		4,120	
	5,852		5,464	
Arall	209		325	
	10,188		9,886	
Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
	14,073		16,088	

*Ddim yn cynnwys grantiau wedi eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r ysgolion.

NODYN 21 – INCWM GRANT (parhad)

21b. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu ella y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Byr</u>		
Cyngor Chwaraeon Cymru	127	46
Rhwydwaith Ysgolion Arloesi	0	112
Rhaglen Athrawon Newydd Gymhwyso	0	198
Cyfanswm	127	356

NODYN 22 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor.

Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2017 wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2016/17 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
£'000	£'000	£'000
16	1	0

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cyngorwyr.

Swyddogion

Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau yma yn ystod 2016/17 ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a nodwyd.

NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu'r gost berthnasol i'r cyflogwr yn hytrach na gwir gost y taliadau i'r unigolion.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfynu gwaith ymhob band	
	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17
£	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	£'000	£'000
0 - 20,000	0	3	0	0	0	3	0	4
Cyfanswm	0	3	0	0	0	3	0	4

NODYN 24 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2016/17 talodd y Cyd-Bwyllgor £11k (2015/16: £11k) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 15.65%, ar gyfartaledd, o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Nid oedd unrhyw gostau am hyn yn 2016/17 a 2015/16. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 25.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ar ôl cyflogaeth. Er nad yw'r buddion yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ar ôl cyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014 ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiwnau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiwnau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff y polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Y pwyllgor sy'n penodi rheolwyr buddsoddi'r gronfa.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Cyd-Bwyllgor.

Trafodion sydd yn Perthyn i Fuddion ar ôl Cyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddion yn cael eu talu. Fodd bynnag, mae'r gost sydd rhaid ei ddangos yn erbyn Treth y Cyngor (trwy gyfraniadau'r Cyngorau) yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn. Felly, mae gwir gost buddion ar ôl cyflogaeth/ymddeol yn cael eu gwrth-droi allan o Gronfa Gyffredinol y Cyd-Bwyllgor trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2016			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2017		
	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	12,910	0	12,910	13,529	0	13,529
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(17,554)	(17,554)	0	(16,760)	(16,760)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	12,910	(17,554)	(4,644)	13,529	(16,760)	(3,231)
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(592)	(592)	0	(621)	(621)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(592)	(592)	0	(621)	(621)
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	418	0	418	482	0	482
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(567)	(567)	0	(595)	(595)
Cyfanswm Llog Net	418	(567)	(149)	482	(595)	(113)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	418	(1,159)	(741)	482	(1,216)	(734)
Llif Arian						
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	166	(166)	0	195	(195)	0
Cyfraniadau y Cyflogwr	540	0	540	624	0	624
Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Buddion a Dalwyd	(416)	416	0	(334)	334	0
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau y Disgwyllir	13,618	(18,463)	(4,845)	14,496	(17,837)	(3,341)
Ail Fesuriadau						
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	0	0	0	50	50
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	1,596	1,596	0	(2,295)	(2,295)
Profiadau Eraill	0	107	107	0	(1,565)	(1,565)
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	(89)	0	(89)	206	0	206
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	(89)	1,703	1,614	206	(3,810)	(3,604)
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	13,529	0	13,529	14,702	0	14,702
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(16,760)	(16,760)	0	(21,647)	(21,647)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu**	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	13,529	(16,760)	(3,231)	14,702	(21,647)	(6,945)

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Ar gyfer ymrwymiaid heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2017, tybir bod yr holl bensiynau heb eu hariannu, yn daladwy am weddill oes yr aelod. Tybir hefyd bod 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) pan fuont farw ac y bydd eu priod (cydbreswylwyr) yn derbyn pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion IAS19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheini sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheini nad oes ganddynt. Tybir bod rhaniad asedau GwE ar yr un gyfrannedd â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2016. Mae'r tabl uchod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £1,843m ar 31 Mawrth 2017, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod a'r gwerth bid yn unol â gofynion IAS19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2016				Ar 31 Mawrth 2017			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	430	0	430	3	504	0	504	3
Cynhyrchu	0	0	0	0	455	0	455	3
Ynni a Gwasanaethau	74	0	74	1	82	0	82	1
Sefydliadau Ariannol	221	0	221	2	282	0	282	2
Iechyd a Gofal	780	0	780	6	726	0	726	5
Technoleg Gwybodaeth	448	0	448	3	591	0	591	4
Eraill	539	0	539	4	40	0	40	0
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	1,808	1,808	13	0	1,837	1,837	12
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	550	550	4	0	664	664	5
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	258	1,139	1,397	10	323	803	1,126	8
Eiddo Tramor	0	26	26	0	0	30	30	0
Cronfeydd								
Buddsoddi ac								
Ymddiriedolaethau								
Unedol								
Ecwiti	2,746	3,981	6,727	50	3,143	4,472	7,615	52
Bondiau	0	0	0	0	0	0	0	0
Is-adeiladwaith	0	112	112	1	0	197	197	1
Deilliadau								
Chwyddiant	0	0	0	0	0	0	0	0
Arian a								
Chyfwertioedd								
Arian								
Y cyfan	417	0	417	3	553	0	553	4
Cyfanswm	5,913	7,616	13,529	100	6,699	8,003	14,702	100

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymïadau

Mae'r ymrwymïadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymïadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymïadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymïadau fel a ganlyn:-

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.2	2.4
Cyfradd Codiad Cyflogau*	4.2	2.4
Cyfradd Chwyddiant	2.2	2.4
Cyfradd Ddisgownt	3.5	2.6
Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau	3.5	3.2
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blyneddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blyneddol	Blyneddol
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr cyfredol		
Dynion	22	22.0
Merched	24	24.2
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	24.4	24.0
Merched	26.6	26.4

*Ar gyfer ymrwymïadau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2017, tybir bod yr holl bensiynau heb eu hariannu yn daladwy am weddill oes yr aelod. Tybir hefyd bydd 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) wrth farw ac y bydd eu priod (cydbreswlydd) yn derbyn pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintoli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymïadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2017 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigurau IAS19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintoli'r ansicrwydd disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 3% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf ddibynnol i oedrannau iau neu hyn).

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016, dyddiad y prisiad actiwaraid mwyaf diweddar. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwyd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn cynt.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun		
Newid tybiaeth	Amcan Cynnydd i'r Cyflogwr 31 Mawrth 2017	Amcan Swm ariannol 31 Mawrth 2017
	%	£'000
lleihad 0.5% i'r gwir gyfradd ddisgownt	11	2,330
cynnydd 0.5% i'r cyfradd codiad cyflog	3	600
cynnydd 0.5% i'r gyfradd codiad pensiwn	8	1,683

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y mwyaf diweddar oedd 31 Mawrth 2016), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddol. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2020 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, cyfeiriwch at adroddiad actiwaraid 2016, dyddiedig 31 Mawrth 2017.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad		Parhad
	£'000	%	
Aelodau Gweithredol	14,745	68.1	23.1
Aelodau Gohiriedig	486	2.2	32.9
Aelodau Pensiynwyr	6,416	29.7	14.0
Cyfanswm	21,647	100.0	20.0

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymïadau wedi eu hariannu ac nad ydynt yn cynnwys ymrwymïadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2016.

Effaith ym Mlynnyddoedd y Dyfodol

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £823,000 yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2018.

O ganlyniad i faterion amseriad a'r ffaith fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, mae gwahaniaeth o £61,892 yn 2016/17 (£35,950 yn 2015/16) rhwng ffigyrau diffyg yn y Gronfa yn ôl yr actiwari i gymharu gyda'r ymrwymiad yn perthyn i gynllun pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Chollodion Actiwaraid ar Asedau ac Ymrwymïadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad yn perthyn i gynllun pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyd-bwyllgor GwE

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyd-bwyllgor GwE am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor GwE yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyd-bwyllgor GwE a pha un a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor GwE

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran
Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
29 Medi 2017

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Sefydlwyd GwE yn Gyd-bwyllgor gan 6 awdurdod lleol gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cyngorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cyngorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cyngorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

Gweledigaeth y Cyngorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei dylunio i alluogi GwE i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu perthnasol a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le ar gyfer GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Mawrth 2017, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

3.1 Aelodaeth

Mae'r Cynghorau wedi dod i gytundeb i sefydlu a gweithredu GwE yn unol â'r pwerau sydd ganddynt dan Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009, Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 101 a 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r Rheoliadau Cysylltiedig.

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys un aelod yr un o Gyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd â hawl i bleidleisio.

Ar hyn o bryd, mae'r Prif Swyddogion Addysg Statudol, un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru, yn aelodau heb hawl pleidleisio

Mae un cynrychiolydd o'r Esgobaeth, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Cynradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Uwchradd, un cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig ac un Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr yn Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais.

3.2 Swyddogaethau

Mae'r Cynghorau wedi arwyddo Cytundeb ar 13 Chwefror 2013 i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau bob un mewn perthynas â'r Gwasanaeth, ac wedi penodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletyol ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Achos Busnes Terfynol y cytunwyd arno.

Mae'r cytundeb yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys gwybodaeth am agweddau llywodraethu a gweinyddol y Cyd-bwyllgor. Y cytundeb yw sylfaen fframwaith llywodraethu GwE.

3.3 Egwyddorion

Trwy arwyddo'r Cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:

- Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth

Mewn perthynas â'r cytundeb bydd y Cynghorau'n agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'i gilydd, yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd ar wneud y cydweithio'n llwyddiannus;

- Ymrwymiad a Chymhelliant

Bydd y Cynghorau wedi ymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn ceisio ysgogi'r holl weithwyr ac yn mynd i'r afael â heriau'r Gwasanaeth yn llawn bwriad a brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

- Sgiliau a Chreadigedd

Mae'r Cynghorau'n cydnabod bod pob un yn dod â sgiliau a gwybodaeth defnyddiol y gellir eu cymhwyso'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Cynghorau, sicrhau parhad y cydweithio, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff personél sy'n gweithio oddi mewn iddo;

- Perthnasau Effeithiol

Bydd rolau a chyfrifoldebau pob un Cyngor yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol i gynrychiolwyr ei gilydd;

- Datblygu ac Addasu

Mae'r Cynghorau'n cydnabod eu bod ynghlwm â beth allasai fod yn berthynas hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses effeithiol ar y cyd er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

- Enw Da

Mae'r Cyngorau'n cytuno, mewn perthynas â'r cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da ei gilydd, ac na fyddant yn gwneud neu'n methu â gwneud unrhyw beth fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Gyngor arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Gyngor arall;

- Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Cyngorau'n cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb a'r Gwasanaeth yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

- Caniatâd Angenrheidiol

Mae pob Cyngor drwy hyn yn sicrhau i'r Cyngorau eraill eu bod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn; ac

- Ymrwymïadau Aelodau a Swyddogion

Bydd pob Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eu haelodau a'u swyddogion hwy sydd ynghlwm â'r Gwasanaeth yn gweithio er pennaf les y Gwasanaeth bob tro, ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Cyngorau eraill.

Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae GwE yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol.

Cyngor Gwynedd yw Awdurdod Lletyol y Cyd-bwyllgor. O ganlyniad, felly, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côd Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen llywodraethu'r Cyd-bwyllgor hefyd.

Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn ym mis Ionawr 2015, gofynnodd Lywodraeth Cymru i Estyn gynnal dilyniant i'r adolygiad drwy arolygu ac adrodd ar bob consortiwm yn unigol. Cynhaliwyd Arolygiad Rhanbarthol Estyn yn ystod y pythefnos yn dechrau 18 Ebrill 2016. Cynhyrchwyd yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru ar 30 Mehefin 2016.

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/GwE%20cy_I.pdf

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyd-bwyllgor ar 6 Gorffennaf 2016 ac yna aethpwyd ati i drafod ymhellach a chyflwyno'r Cynllun Busnes Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad i'r Cyd-bwyllgor ar 22 Medi 2016.

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/4670f438-120e-4153-99d0-cdb35ac05fff.pdf>

Amcanion

Mae Achos Busnes Llawn wedi ei ddarparu ar gyfer y Gwasanaeth, dyddiedig Mawrth 2012, gyda'r achos busnes yn dangos tystiolaeth bod amcanion clir wedi eu sefydlu, eu bod yn SMART a bod rhaglen waith briodol yn ei lle.

Mae Cynllun Busnes 3 Blynedd yn ei le ar gyfer y gwasanaeth sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor a Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Busnes yn sicrhau bod rhaglenni gwaith priodol yn eu lle a bod adroddiadau monitro yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfodydd.

Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Cyd-bwyllgor wedi ei sefydlu, gydag aelodaeth briodol.

Gwelwyd bod strwythur trefniadaethol clir ar gyfer y Gwasanaeth, ond yn dilyn derbyn y model cenedlaethol newydd bydd newidiadau i'r strwythur yn y dyfodol oherwydd bod newidiadau mewn disgwyliadau ar ran y Gwasanaeth.

Mae cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor yn nodi rhai o'i gyfrifoldebau, ynghyd â rhestr o aelodau'r Cyd-bwyllgor a'u hawliau pleidleisio. Mae rôl yr Awdurdodau wedi'i nodi yn y Cytundeb.

O ganlyniad i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, bu strwythur llywodraethu GwE yn destun adolygiad. Mae hyn wedi golygu creu Bwrdd Ymgynghorol a Bwrdd Rheoli ac adolygu strwythur y Cyd-bwyllgor. Mae elfennau o'r strwythur eisoes ar waith, a bydd yn cael ei fabwysiadu yn llawn pan gaiff ei gymeradwyo gan Weithredwyr pob Partner, a bydd yn arwain at Gytundeb Rhyngawdurdod diwygiedig.

Arweinyddiaeth

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 06/07/16
- 22/09/16
- 25/11/16
- 01/02/17
- 08/03/17

Mae cofrestr risg GwE yn cael ei diweddarau yn gyson. Mae perthnasedd y gofrestr risg yn cael ei gadw dan adolygiad.

Systemau Rheoli Perfformiad

Yn unol â'r cytundeb, bydd Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth yn adrodd yn flynyddol i'r Cyd-bwyllgor ac i bob Cyngor yn unigol ar berfformiad y Gwasanaeth wrth gyflawni Swyddogaethau a Nodau Allweddol y Gwasanaeth.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2015/16 i'r Cyd-bwyllgor yn eu cyfarfod ar 08/03/17.

Anghenion Defnyddiwr a Chwynion

Mae'r Gwasanaeth yn dilyn trefn gwyno Cyngor Gwynedd. Yn ystod 2016/17 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion.

Yn ogystal, mae'n bosibl i'r ysgolion roi adborth drwy'r Grŵp Defnyddwyr sydd wedi ei sefydlu i roi cefnogaeth i'r Cyd-bwyllgor yn ogystal â'u herio. Mae cynrychiolwyr priodol o ysgolion uwchradd a chynradd y 6 Awdurdod yn aelodau o'r Grŵp Defnyddwyr:

Mae'r Grŵp Defnyddwyr yn gweithredu'n effeithiol oherwydd:

- Mae ganddo'r hawl i adrodd wrth a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor ynglŷn ag unrhyw fater sydd oddi mewn i sgôp swyddogaethau'r Gwasanaeth.
- Mae'r grŵp wedi cyfarfod ar y dyddiadau a ganlyn:
 - 10/05/2016
 - 05/07/2016
 - 27/09/2016
 - 06/12/2016
 - 07/03/2017
- Mae'r grŵp yn cynnwys:
 - 6 cynrychiolydd Uwchradd, un o bob Awdurdod
 - 6 cynrychiolydd Cynradd, un o bob Awdurdod
 - 1 cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
 - Llywodraethwyr Ysgol - un cynrychiolydd fesul Cyngor.

Polisiau Corfforaethol

Ar ddyddiad y fantolen, mae GwE yn gweithredu o dan bolisiau corfforaethol yr awdurdod lletyol.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan GwE, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu.**

Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan GwE i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw GwE o'r farn bod unrhyw faterion o'r fath wedi codi yn ystod asesiad o'i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

Yn dilyn Adolygiad Rhanbarthol Estyn ym mis Ebrill 2016, cyflwynwyd yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor ar 6 Gorffennaf 2016.

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/GwE%20cy_l.pdf

Cyflwynwyd y Cynllun Busnes Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad i'r Cyd-Bwyllgor ar 22 Medi 2016.

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/4670f438-120e-4153-99d0-cdb35ac05fff.pdf>


Cyflwynwyd adroddiadau yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Busnes a'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad i'r Cyd-bwyllgor ar 25 Tachwedd 2016, a 8 Mawrth, 2017.

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/6be6a28c-50de-4109-8c82-9456f79300ed.pdf>

<http://www.gwegogledd.cymru/Content/Uploaded/Downloads/GWE/e5b8515c-5d51-4836-b0e7-57375a548af8.pdf>


Rhan 6: BARN

Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd GwE yn paratoi i ymateb i adolygiad nesaf y Model Cenedlaethol a bydd yn gweithredu'r newidiadau yn ôl y gofyn.



Swyddog Arweiniol GwE

Dyddiad: 20/07/17



Cadeirydd GwE

Dyddiad: 20/07/17

ARWYN LLOYD THOMAS

RHEOLWR GYFARWYDDWR GwE

CYNGHORYDD GARETH THOMAS

CYNGOR GWYNEDD



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22/09/2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Adroddiad cychwynnol i Gyd-Bwyllgor GwE ar berfformiad y rhanbarth

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Cyflwyno gwybodaeth gynnar ar berfformiad diwedd cyfnod allweddol ar gyfer blwyddyn addysgol 2016/17.

2.0 Cefndir ac Ystyriaethau

2.1 Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth gynnar ar berfformiad diwedd cyfnod allweddol ar gyfer blwyddyn addysgol 2016/2017.

2.2 Pwysleisir mai gwybodaeth gychwynnol yn unig am ganlyniadau CA4 a rennir ac nad oes, hyd yma, fynediad at ddata cymharol a meincnodol ar gyfer unrhyw gyfnod allweddol. Mae angen gofal wrth ystyried yr wybodaeth gan na fydd y dadansoddiad na'r cymariaethau yn cael eu cwblhau ar lefel genedlaethol tan tua throad y flwyddyn.

2.3 Fodd bynnag, mae cael mynediad buan i'r math o wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad, a chael cyfle i holi cwestiynau pellach, yn gyfraniad pwysig at y broses hunanarfarnu ac wrth ymateb i'r math o gwestiynau a restrir isod:

- Sut y mae perfformiad y rhanbarth yn cymharu â pherfformiad 2016?
- Sut y mae perfformiad y rhanbarth yn cymharu â'r targedau a bennwyd ar gyfer 2017?
- Sut y mae'r 6 awdurdod wedi perfformio?
- A yw perfformiad ar draws y pynciau craidd yn debyg?
- Ym mha agweddau y mae angen gwelliannau?

3.0 Argymhellion

- 3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

4.0 Goblygiadau Ariannol

- 4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 7.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon.

8.0 Atodiadau

- 8.1. Adroddiad cychwynnol i Gyd-Bwyllgor GwE ar berfformiad y rhanbarth

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol

Adroddiad i Gyd-Bwyllgor GwE ar berfformiad y rhanbarth

Medi 2017

CYNNWYS

Rhagarweiniad	3
Context	3
Tabl 1: % disgyblion oedran ysgol statudol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim [PYD]	3
Crynodeb gweithredol	3
Tabl 2: crynodeb o safle'r awdurdodau yn y prif ddangosydd ymhob cyfnod allweddol	3
CS: Tabl 3: % dysgwyr sy'n llwyddo yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen [DCS]	4
CA2: Tabl 4: % dysgwyr sy'n llwyddo yn y Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] yng nghyfnod allweddol 2	4
CA3: Tabl 5: % dysgwyr sy'n llwyddo yn y Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] yng nghyfnod allweddol 3	5
CA4: Tabl 6: % dysgwyr sy'n llwyddo yn y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Iaith a Mathemateg [L2+]	5
CA5	5
Prif negeseuon	6
Foundation Phase	6
Key Stage 2	7
Key Stage 3	8
Key Stage 4	9
Key Stage 5	10
Prif agweddau sydd angen sylw	11
Atodiad 1: Data Cyfnod Sylfaen	12
Tabl 7: Cyfnod Sylfaen - deilliant disgwylidig	12
Tabl 8: Cyfnod Sylfaen - deilliant disgwylidig +1 (uwch)	15
Tabl 9: Cyfnod Sylfaen - perfformiad yn erbyn targedau a rhagamcanion	17
Tabl 10: Cyfnod Sylfaen - perfformiad dysgwyr PYD	20
Tabl 11: Cyfnod Sylfaen - gwahaniaeth rhwng y rhywiau	23
Atodiad 2: Data Cyfnod Allweddol 2	27
Tabl 12: Cyfnod Allweddol 2 - lefel ddisgwylidig	27
Tabl 13: Cyfnod Allweddol 2 - lefel ddisgwylidig +1 (uwch)	30
Tabl 14: Cyfnod Allweddol 2 - perfformiad yn erbyn targedau a rhagamcanion	32
Tabl 15: Cyfnod Allweddol 2 - perfformiad dysgwyr PYD	35
Tabl 16: Cyfnod Allweddol 2 - gwahaniaeth rhwng y rhywiau	38
Atodiad 3: Data Cyfnod Allweddol 3	42
Tabl 17: Cyfnod Allweddol 3 - lefel ddisgwylidig	42
Tabl 18: Cyfnod Allweddol 3 - lefel ddisgwylidig +1 (uwch)	44
Tabl 19: Cyfnod Allweddol 3 - perfformiad yn erbyn targedau a rhagamcanion	46
Tabl 20: Cyfnod Allweddol 3 - perfformiad dysgwyr PYD	48
Tabl 21: Cyfnod Allweddol 3 - gwahaniaeth rhwng y rhywiau	52
Atodiad 4: Data Cyfnod Allweddol 4	56
Tabl 22: Cyfnod Allweddol 4 - Trothwy Lefel 2+	56
Tabl 23: Cyfnod Allweddol 4 - Trothwy Lefel 2	56
Tabl 24: Cyfnod Allweddol 4 - Trothwy Lefel 1	57
Tabl 25: Cyfnod Allweddol 4 - DPC	57
Tabl 26: Cyfnod Allweddol 4 - Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio (SPC)	58
Tabl 27: Cyfnod Allweddol 4 - 5A*-A (graddau uwch)	58
Tabl 28: Cyfnod Allweddol 4 – Cymraeg	59
Tabl 29: Cyfnod Allweddol 4 – Saesneg	60
Tabl 30: Cyfnod Allweddol 4 – Mathemateg	61
Tabl 31: Cyfnod Allweddol 4 – Gwyddoniaeth	61
Tabl 32: Cyfnod Allweddol 4 – Perfformiad yn erbyn rhagamcanion terfynol	62
Atodiad 2: Cyfnod Allweddol 5	63
Tabl 33: Cyfnod Allweddol 5 – Lefel A	63

ADRODDIAD AR BERFFORMIAD YSGOLION YN RHANBARTH GwE [MEDI 2017]

Cyflwyniad

Prif bwrpas yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth gynnar ar berfformiad diwedd cyfnod allweddol ar gyfer blwyddyn addysgol 2016/2017. Pwysleisir mai gwybodaeth gychwynnol yn unig am ganlyniadau CA4 a rennir ac nad oes, hyd yma, fynediad at ddata cymharol a meincnodol ar gyfer unrhyw gyfnod allweddol. Mae angen gofal wrth ystyried yr wybodaeth gan na fydd y dadansoddiad na'r cymariaethau yn cael eu cwblhau ar lefel genedlaethol tan tua throad y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae cael mynediad buan i'r math o wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad, a chael cyfle i holi cwestiynau pellach, yn gyfraniad pwysig at y broses hunan arfarnu ac wrth ymateb i'r math o gwestiynau a restrir isod:

- Sut y mae perfformiad y rhanbarth yn cymharu â pherfformiad 2016?
- Sut y mae perfformiad y rhanbarth yn cymharu â'r targedau a bennwyd ar gyfer 2017?
- Sut y mae'r 6 awdurdod wedi perfformio?
- A yw perfformiad ar draws y pynciau craidd yn debyg?
- Ym mha agweddau y mae angen gwelliannau?

Cyd-destun

Mae Tabl 1 yn dangos % y disgyblion o oedran ysgol statudol a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim dros y pum mlynedd diwethaf, mewn cymhariaeth â Chymru a'r awdurdodau unigol.

Tabl 1: % y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim [PYD]

	2014		2015		2016		2017	
	%	Safle	%	Safle	%	Safle	%	Safle
Ynys Môn	18.5	11	17.4	11	17.0	10	15.9	7
Gwynedd	12.9	4	13.3	4	13.0	4	12.4	4
Conwy	18.1	10	17.1	9	16.2	8	16.8	9
Sir Ddinbych	19.4	13	19.0	13	19.1	14	18.1	14
Sir y Fflint	13.9	5	14.9	6	15.0	6	13.8	6
Wrecsam	18.0	9	16.6	8	16.4	9	16.9	10
GwE	16.4	1	16.1	1	15.9	1	15.5	1
Cymru	19.1		18.8		18.4		17.8	

Mae'r rancio yn dangos safle'r awdurdodau mewn cymhariaeth â'r awdurdodau yng Nghymru, a'r safle uchaf yn dangos y garfan leiaf o ddisgyblion 5-15 mlwydd oed sy'n cael PYD. Canran PYD y rhanbarth yw'r isaf ymhlith y 4 consortiwm. Mae'r Tabl yn awgrymu, gan gymryd bod yr hawl i gael prydau ysgol am ddim yn fesur priodol o amddifadedd, y dylai perfformiad Ynys Môn yn 2017, er enghraifft, fod tua seithfed ymhlith yr holl awdurdodau yng Nghymru, h.y. yn cyfateb i'r safle prydau ysgol am ddim (wedi symud o'r 10fed safle yn 2016).

Crynodeb Gweithredol

Mae Tabl 2 yn crynhoi safleoedd yr awdurdodau mewn cymhariaeth ag awdurdodau Cymru yn y prif ddangosydd ym mhob cyfnod allweddol. Y rhif rhwng y cromfachau yw safle cymharol yr awdurdod ar sail canran y disgyblion 5-15 oed sy'n cael PYD [gweler Tabl 1].

Tabl 2: crynodeb o safleoedd yr awdurdodau yn y prif ddangosydd ar gyfer bob cyfnod allweddol [CS, CA2, CA3 a CA4]


	2015				2016				2017			
	DCS	DPC CA2	DPC CA3	L2+	DCS	DPC CA2	DPC CA3	L2+	DCS	DPC CA2	DPC CA3	*L2+
Ynys Môn (7)	15	3	9	12	20	9	7	13	17	4	9	14
Gwynedd (4)	10	6	1	5	14	7	2	4	15	3	1	5
Conwy (9)	21	19	6	18	21	20	9	17	21	19	8	12
Sir Ddinbych (14)	13	12	12	14	10	14	12	14	20	17	18	17
Sir y Fflint (6)	9	11	7	8	13	5	6	10	5	6	5	8
Wrecsam (10)	19	14	19	20	15	18	16	18	11	7	16	19
GwE (1)	4	2	1	3	3	3	1	3	3	1	1	3

*Y rhif rhwng y cromfachau yw'r safle PYD (blwyddyn yn unig) / L2+ yn seiliedig ar ddata heb ei wirio

Cyfnod Sylfaen

Mae'r cynnydd o fewn y rhanbarth yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen [DCS] yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn uwch na'r cynnydd a welwyd ar lefel genedlaethol. Yn 2017, mae'r cynnydd mwyaf yn Wrecsam a Sir y Fflint. Yn 2017, er gwaethaf cynnydd parhaus yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) ar draws y rhanbarth, erys perfformiad GwE yn is na'r disgwyl (3ydd ymhlith y 4 consortiwm), gan gymryd bod yr hawl i gael prydau ysgol am ddim yn fesur priodol o amddifadedd. Perfformiodd 5 o'r 6 awdurdod lleol yn is na'r disgwyl mewn perthynas â'u safle prydau ysgol am ddim (gyda dim ond Sir y Fflint yn perfformio'n well).


Tabl 3: % y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen [DCS]



Cyfnod Allweddol 2

Yn 2017, mae perfformiad GwE yn y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) wedi codi o'r 3ydd safle yn y flwyddyn flaenorol i'r safle 1af ymhlith y 4 consortiwm. Mae pedwar o'r chwe awdurdod yn perfformio'n well neu debyg i'w safle PYD. Mae'r cynnydd o fewn y rhanbarth yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn uwch na'r cynnydd a welwyd ar lefel genedlaethol. Yn 2017, mae cynnydd ym mhob Awdurdod Lleol, gyda'r cynnydd mwyaf yn Wrecsam, Gwynedd ac Ynys Môn. Ar y cyfan, mae perfformiad Awdurdod Lleol Conwy gryn dipyn yn is na'i safle PYD cyfatebol ar y lefelau disgwyliedig ac uwch.


Tabl 4: % y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] yng nghyfnod allweddol 2 [CA2]



Cyfnod Allweddol 3

Yn 2017, gwelwyd cynnydd pellach yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC]. Mae perfformiad y rhanbarth yn dal i fod yr uchaf ymhlith y pedwar consortiwm. Erys perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam gryn dipyn yn is na'i safle PYD cyfatebol ar y lefelau disgwyledig ac uwch (ac eithrio Cymraeg Iaith Gyntaf).

Tabl 5: % y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC] yng nghyfnod allweddol 3 [CA3]



Cyfnod Allweddol 4

Yn 2017, cafodd y manylebau TGAU newydd ar gyfer Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth eu harholi am y tro cyntaf. Mae Mathemateg yn cynnwys dau faes llafur newydd (Rhifedd a Mathemateg) ac mae un neu'r llall o'r rhain yn cyfrannu at y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Mathemateg ac Iaith (L2+). Yn ogystal, mae newidiadau i'r dangosydd L2+ yn golygu mai dim ond Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg Iaith sy'n gynnwysedig; yn y gorffennol roedd TGAU Llenyddiaeth ar gyfer y naill iaith neu'r llall yn cyfrannu hefyd. Bu gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r L2+ ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae data dros dro yn awgrymu bod perfformiad GwE (53.2%) 6.4% yn is na pherfformiad 2015-16 (ERW -7.6%, CSC -7.3% ac EAS -3.4%). Mae'r bwlch rhwng perfformiad GwE a'r 2 gonsortia oedd yn perfformio'n uwch yn y TL2+ wedi cau: 1.2% gydag ERW a 0.9% gyda CSC.

Tabl 6: % dysgwyr sy'n llwyddo yn y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Iaith a Mathemateg [L2+]

Cyfnod Allweddol 5

Mae'r model cyflwyno ar gyfer Cyfnod Allweddol 5 yn amrywio oddi fewn awdurdodau ac ar draws y rhanbarth. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno un ai gan ysgolion unigol, colegau 6ed dosbarth, colegau addysg bellach neu ysgolion (a cholegau) yn cydweithio o fewn consortiwm. Mae'r data heb ei wirio yn awgrymu fod perfformiad rhanbarthol yn is na chyfartaledd cenedlaethol (ysgolion yn unig).

PRIF NEGESEUON

CYFNOD SYLFAEN

- Mae'r cynnydd o fewn y rhanbarth yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen [DCS] yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn uwch na'r cynnydd a welwyd ar lefel genedlaethol (2016->2017 0.8% o'i gymharu â 0.3% ar lefel genedlaethol; 2015->2017 1.1% o'i gymharu â 0.5% ar lefel genedlaethol). Yn 2017, mae'r cynnydd mwyaf yn Wrecsam (2.9%) a Sir y Fflint (2.5%).
- Yn 2017, er gwaethaf cynnydd parhaus yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) ar draws y rhanbarth, erys perfformiad GwE yn is na'r disgwyl (3ydd ymhlith y 4 consortiwm), gan gymryd bod yr hawl i gael prydau ysgol am ddim yn fesur priodol o amddifadedd. Perfformiodd 5 o'r 6 awdurdod lleol yn is na'r disgwyl mewn perthynas â'u safle prydau ysgol am ddim (gyda dim ond Sir y Fflint yn perfformio'n well).
- Yn 2017, mae cynnydd rhanbarthol ar y deilliannau disgwyliedig yn y ganran sy'n cyflawni laith Gymraeg (1.3%), laith Saesneg (0.6%), Datblygiad Mathemategol (0.6%) a Datblygiad Personol a Chymdeithasol (0.7%). Mae'r cynnydd yn fwy na'r cynnydd ar lefel genedlaethol ym mhob achos. Yn gyffredinol, mae pedwar o'r chwe awdurdod yn perfformio'n is na'u safle PYD disgwyliedig ar draws yr ystod dangosyddion. Fodd bynnag, mae Sir y Fflint a Wrecsam yn gyffredinol yn perfformio'n well neu gystal â'r disgwyl.
- Yn 2017 ar y deilliannau uwch (deilliant disgwyliedig +1], mae cynnydd yn uwch neu'n debyg i'r cynnydd cenedlaethol: laith Gymraeg (2.7% o'i gymharu â 1.9% yn genedlaethol); laith Saesneg (2.3% o'i gymharu â 1.9% yn genedlaethol); Datblygiad Mathemategol (2.3% o'i gymharu â 2.3% yn genedlaethol) a Datblygiad Personol (2.5% o'i gymharu â 2.4% yn genedlaethol). Mae perfformiad awdurdodau lleol unigol ar draws y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol ac yn gyffredinol erys perfformiad GwE ar y deilliannau uwch yn is na'r disgwyl (3ydd ymhlith y pedwar consortiwm ar gyfer laith Gymraeg, laith Saesneg a Datblygiad Mathemategol). Fodd bynnag, GwE yw'r rhanbarth sy'n perfformio orau mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol o hyd.
- Yn 2017, mae cynnydd rhanbarthol o 1.7% yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DCS. Mae cynnydd mewn 4 o'r 6 awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf yn Sir y Fflint (4.2%) a Chonwy (4.1%). Mae gostyngiad yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DCS yng Ngwynedd (-2.5%).
- Gwelwyd cynnydd ar sail rhanbarthol yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig: laith Gymraeg (2.7%); laith Saesneg (1.5%); Datblygiad Mathemategol (1.5%) a Datblygiad Personol (3.3%). Gwelwyd hyn hefyd ar y deilliannau uwch (deilliant disgwyliedig +1): laith Gymraeg (3.8%); laith Saesneg (0.6%); Datblygiad Mathemategol (1.5%) a Datblygiad Personol (3.1%). Mae bylchau sylweddol o hyd rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD mewn amryw o awdurdodau ar draws yr ystod dangosyddion. Ar hyn o bryd, nid oes data cymharol cenedlaethol wedi'i gyhoeddi.
- Yn 2017, mae'r gwahaniaeth rhanbarthol rhwng y rhywiau yn y DCS (-7.2%) yn debyg i'r hyn a welir ar lefel genedlaethol, gyda'r bwlch mwyaf i'w weld yng Nghonwy a Gwynedd. Mae'r bwlch yn y 4 Awdurdod Lleol arall yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Yn gyffredinol, mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau ar sail ranbarthol yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch (ac eithrio laith Gymraeg a Datblygiad Personol ar y deilliant disgwyliedig). Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched ar draws yr ystod dangosyddion yn amrywio'n sylweddol o fewn yr awdurdodau unigol.
- Mae perfformiad y rhanbarth 2% yn is na'r targed ar gyfer y DCS ond yn agos iawn i'r rhagamcan terfynol. Ac eithrio'r DCS a laith Gymraeg, mae perfformiad rhanbarthol o fewn 1.5% i'r targed ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch.
- Mae'r bwlch lleiaf rhwng perfformiad a tharged yn y DCS yn Sir y Fflint (<1%), Wrecsam (1%) a Sir Ddinbych (2%) tra bo'r bwlch mwyaf yn Ynys Môn (3%), Gwynedd (4%) a Chonwy (3%).
- Yn 2017, am yr ail flwyddyn yn olynol, bu gostyngiad i 64.8% yng nghanran PMG y rhanbarth (54 i gyd) sy'n cyflawni'r DCS, yn dilyn cynnydd mawr yn 2015.
- Mae canran y dysgwyr SIY (379 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DCS yn parhau i gynyddu (83.4% yn 2017).
- Am yr ail flwyddyn yn olynol, bu gostyngiad bach i 43.8% yng nghanran y dysgwyr Sipsi/Teithwyr (16 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DCS.
- Mae canran y dysgwyr o gefndir ethnig heb fod yn Wyn-Brydeinig (588 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DCS yn parhau i gynyddu (84.2% yn 2017).
- Yn 2017, gwelwyd cynnydd i 42.1% yng nghanran y dysgwyr ag ADY (Datganiad a GY+ - 846 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DCS. (+3.4%).

CYFNOD ALLWEDDOL 2

- Yn 2017, mae perfformiad GwE yn y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) wedi codi o'r 3ydd safle yn y flwyddyn flaenorol i'r safle 1af ymhlith y pedwar consortiwm. Mae pedwar o'r chwe awdurdod yn perfformio'n well neu debyg i'w safle PYD. Dau yn unig o'r chwe awdurdod, Conwy (19eg) a Sir Ddinbych (17eg), sy'n perfformio'n is na'u safle PYD cyfatebol.
- Mae'r cynnydd o fewn y rhanbarth yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn uwch na'r cynnydd a welwyd ar lefel genedlaethol (2016->2017 1.6% o'i gymharu â 0.9% ar lefel genedlaethol; 2015->2017 2.2% o'i gymharu â 1.8% ar lefel genedlaethol). Yn 2017, mae cynnydd ym mhob Awdurdod Lleol, gyda'r cynnydd mwyaf yn Wrecsam (2.6%), Gwynedd (2.3%) ac Ynys Môn (2.1%).
- Yn 2017, mae cynnydd rhanbarthol ar y lefel ddisgwyliedig yn y ganran sy'n cyflawni iaith Gymraeg (1.6%), iaith Saesneg (1.7%), Mathemateg (1.2%) a Gwyddoniaeth (0.8%). Mae'r cynnydd yn fwy na'r cynnydd cenedlaethol ym mhob achos; mae'n ddwbl y cynnydd cyfartalog cenedlaethol mewn Cymraeg a Saesneg. Yn gyffredinol, ac eithrio Conwy, mae'r awdurdodau lleol yn perfformio'n uwch neu debyg i'w safleoedd PYD disgwyliedig. Fodd bynnag, ac eithrio Sir Ddinbych, mae perfformiad rhanbarthol ac unigol y rhan fwyaf o'r Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymraeg iaith Gyntaf yn is na'u safle PYD cyfatebol. Dylid nodi bod canran y dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf yn sylweddol uwch yn GwE o'i chymharu â'r consortia eraill.
- Yn 2017 ar y lefel uwch (lefel ddisgwyliedig +1), mae cynnydd yn gyffredinol yn sylweddol uwch na'r cynnydd cyfartalog cenedlaethol: iaith Gymraeg (3.7% o'i gymharu â 3.5% yn genedlaethol); iaith Saesneg (4.5% o'i gymharu â 2.7% yn genedlaethol); Mathemateg (6.2% o'i gymharu â 3.8% yn genedlaethol) a Gwyddoniaeth (5.6% o'i gymharu â 3.9% yn genedlaethol). Er bod perfformiad GwE yn parhau'n is na'r disgwyl (2il ymhlith y 4 consortiwm ar gyfer iaith Gymraeg a Mathemateg a 3ydd ar gyfer iaith Saesneg a Gwyddoniaeth), gwnaed cynnydd da eleni i wella perfformiad ar y lefelau uwch.
- Yn 2017, mae cynnydd rhanbarthol o 2.3% yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DPC. Mae cynnydd mewn 5 o'r 6 awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf yn Ynys Môn (8.7%) a Wrecsam (7.1%). Mae gostyngiad yng nghanran y dysgwyr PYD yn Sir y Fflint sy'n cyflawni'r DPC (-4.4%).
- Mae cynnydd ar sail ranbarthol yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig: iaith Gymraeg (3.5%); iaith Saesneg (1.8%); Mathemateg (2.7%) a Gwyddoniaeth (1.5%). Gwelwyd hyn hefyd ar y lefel uwch (lefel ddisgwyliedig +1): iaith Gymraeg (0.2%); iaith Saesneg (3.3%); Mathemateg (4.2%) a Gwyddoniaeth (4.2%). Mae bylchau sylweddol o hyd rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD mewn amryw o awdurdodau ar draws yr ystod dangosyddion.
- Yn 2017, mae'r gwahaniaeth rhanbarthol rhwng y rhywiau yn y DPC (-5.9%) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (-4.5%), gyda'r bwlch mwyaf i'w weld yn Sir Ddinbych (-8.4%) ac Ynys Môn (-7.6%). Yng Ngwynedd yn unig y mae'r bwlch yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (-2.9%).
- Yn gyffredinol, mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau ar sail ranbarthol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar y lefelau disgwyliedig ac uwch (ac eithrio iaith Gymraeg a Gwyddoniaeth ar y lefel uwch). Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched ar draws yr ystod dangosyddion yn amrywio'n sylweddol o fewn yr awdurdodau unigol.
- Mae perfformiad y rhanbarth yn agos iawn i'w darged ar gyfer y DPC a fymryn yn uwch na'r rhagamcan terfynol. Mae'r bwlch lleiaf rhwng perfformiad a tharged yn y DPC yn Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn a Chonwy (<1%) tra bo'r bwlch mwyaf yn Sir Ddinbych a Gwynedd (1%).
- Roedd perfformiad mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth ar y lefel uwch bron i 3% yn well na'r targed. Roedd perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf 4% yn is na'r targed ar y lefel ddisgwyliedig.
- Yn 2017, bu mymryn o ostyngiad i 70.7% yng nghanran PMG y rhanbarth (82 i gyd) sy'n cyflawni'r DPC. Fodd bynnag, mae tuedd tuag at welliant dros gyfnod treigl pum mlynedd.
- Yn 2017, mae canran y dysgwyr SIY (162 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC yn parhau i gynyddu. Mae'n 85.2% yn 2017 (+4.7%).
- Am yr ail flwyddyn yn olynol, bu gostyngiad i 45.8% yng nghanran y dysgwyr Sipsi/Teithwyr (24 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC.
- Mae canran y dysgwyr o gefndir ethnig heb fod yn Wyn-Brydeinig (458 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC yn parhau i gynyddu (89.5% yn 2017).
- Yn 2017, gwelwyd cynnydd i 52.2% yng nghanran y dysgwyr ag ADY (Datganiad a GY+ - 978 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC. (+5.2%).

CYFNOD ALLWEDDOL 3

- Yn 2017, gwelwyd cynnydd pellach (1.0%) yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd [DPC]. Mae perfformiad y rhanbarth yn dal i fod yr uchaf ymhlith y pedwar consortiwm.
- Mae tri o'r chwe awdurdod yn perfformio'n well neu debyg i'w safle PYD yn y DPC, gyda pherfformiad Ynys Môn (9fed), Sir Ddinbych (18fed) a Wrecsam (16eg) yn is.
- Yn 2017, ar y lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd, perfformiad y rhanbarth yw'r uchaf ymhlith y pedwar consortiwm, ac eithrio Cymraeg Iaith Gyntaf (2il).
- Yn 2017, ar y lefel uwch [lefel ddisgwyliedig +1] yn y pynciau craidd, perfformiad y rhanbarth yw'r uchaf ymhlith y 4 consortiwm, ac eithrio Iaith Saesneg [2il]
- Erys perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam yn sylweddol is na'i safle PYD cyfatebol ar y lefelau disgwyliedig ac uwch (ac eithrio Cymraeg Iaith Gyntaf).
- Yn 2017 ar y lefel uwch (lefel ddisgwyliedig +1), mae cynnydd yn y pynciau craidd yn amrywio o'i gymharu â'r cynnydd cyfartalog cenedlaethol: Iaith Gymraeg (5.8% o'i gymharu â 5.7% yn genedlaethol); Iaith Saesneg 1.7% o'i gymharu â 2.5% yn genedlaethol); Mathemateg (2.4% o'i gymharu â 2.7% yn genedlaethol) a Gwyddoniaeth (3.8% o'i gymharu â 2.6% yn genedlaethol).
- Cynnydd bychan a welir yng nghanran y disgyblion PYD sy'n cyflawni'r DPC (cynnydd o 0.2%). Mae cynnydd mewn 4 o'r 6 awdurdod lleol gyda'r cynnydd mwyaf yn Wrecsam (3.2%), Gwynedd (2.8%) a Chonwy (2.1%). Fodd bynnag, mae gostyngiad yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni'r DPC yn Sir y Fflint (-4.5%) a Sir Ddinbych (-0.7%).
- Mae cynnydd ar sail ranbarthol yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig: Iaith Gymraeg (1.7%); Iaith Saesneg (1.5%); Mathemateg (1.3%) a Gwyddoniaeth (0.9%).
- Gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghanran y dysgwyr PYD sy'n cyflawni ar y lefel uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf (8.8%). Fodd bynnag, roedd y cynnydd lawer yn llai mewn Mathemateg (0.8%) a Gwyddoniaeth (0.5%) gyda gostyngiad bychan mewn Iaith Saesneg (-0.8%). Fel yn y cyfnodau allweddol eraill, mae bylchau sylweddol o hyd rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD mewn amryw o awdurdodau ar draws yr ystod dangosyddion.
- Yn 2017, mae'r gwahaniaeth ranbarthol rhwng y rhywiau yn y DPC (-6.5%) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (-7.4%), gyda'r bwlch mwyaf i'w weld yng Nghonwy (-7.5%), Sir Ddinbych (-8.1%) a Wrecsam (-9.7%).
- Yn 2017, mae'r bwlch rhwng y rhywiau ar sail ranbarthol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar y lefelau disgwyliedig ac uwch ym mhob pwnc craidd.
- Mae perfformiad y rhanbarth yn is na'r targed ar gyfer y DPC (2%) ond dros 4% yn uwch na'r rhagamcan terfynol.
- Mae'r bwlch lleiaf rhwng perfformiad a tharged yn y DPC yng Ngwynedd (<1%), Ynys Môn (1%) a Sir y Fflint (<2%) tra bo'r bwlch mwyaf yng Nghonwy (2.5%), Wrecsam (3.5%) a Sir Ddinbych (4.5%).
- Mae'r perfformiad ranbarthol ym mhob pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig o fewn 2% i'r targed.
- Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng perfformiad a tharged yn fwy ar y lefel uwch gyda Iaith Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth tua 3% yn is na'r targed.
- Yn 2017, bu cynnydd i 86.1% yng nghanran PMG y rhanbarth (79 i gyd) sy'n cyflawni'r DPC (+6.4%).
- Yn 2017, cyflawnodd bob dysgwr SIY (88 i gyd ar draws y rhanbarth) y DPC (+6.2%).
- Roedd llai na 5 o ddysgwyr Sipsi / Teithwyr ar draws y rhanbarth, felly ni ellir rhannu perfformiad er mwyn cadw unigolion yn anhysbys.
- Bu cynnydd i 96.1% yng nghanran y dysgwyr o gefndir ethnig heb fod yn Wyn-Brydeinig (337 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC (+2.1%).
- Yn 2017, roedd canran y dysgwyr ag ADY (Datganiad a GY+ - 831 i gyd ar draws y rhanbarth) sy'n cyflawni'r DPC yn parhau i gynyddu i 72.3% (+0.5%).

CYFNOD ALLWEDDOL 4

Cyd-destun

Yn 2017, cafodd y manylebau TGAU newydd ar gyfer Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth eu harholi am y tro cyntaf. Mae Mathemateg yn cynnwys dau faes llafur newydd (Rhifedd a Mathemateg) ac mae un neu'r llall o'r rhain yn cyfrannu at y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Mathemateg ac Iaith (L2+). Yn ogystal, mae newidiadau i'r dangosydd L2+ yn golygu mai dim ond Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg Iaith sy'n gynnwysedig; yn y gorffennol roedd TGAU Llenyddiaeth ar gyfer y naill iaith neu'r llall yn cyfrannu hefyd. Bu gostyngiad yng nghanran y dysgwyr sy'n cyflawni'r L2+ ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae data dros dro yn awgrymu bod perfformiad GwE (53.2%) 6.4% yn is na pherfformiad 2015-16 (ERW -7.6%, CSC -7.3% ac EAS -3.4%). Mae perfformiad 11.8% yn is na'r targed (65%) a 6.5% yn is na'r rhagamcan terfynol. Fodd bynnag, mae'r newidiadau a nodir uchod wedi dylanwadu'n sylweddol ar hyn. Mae'r bwlch rhwng perfformiad GwE a'r 2 gonsortia oedd yn perfformio'n uwch yn y TL2+ wedi cau: 1.2% gydag ERW a 0.9% gyda CSC.

Mae'r dadansoddiad a ganlyn ym amrwd iawn gan ei fod yn seiliedig ar ddata dros dro nas profwyd a ddaeth ar gael ar 24 Awst 2017.

- Yr Awdurdod Lleol sy'n perfformio orau yn y L2+ yw Gwynedd (58.3%) tra bo Wrecsam (49.1%) â'r perfformiad isaf (bwlch o 8.4% rhwng yr uchaf a'r isaf o'i gymharu â 10.3% yn 2016). Mae perfformiad cymharol yr AauL wedi gwella yng Nghonwy (i'r 12fed safle; 17eg yn 2016) a Sir y Fflint (i'r 8fed safle; 10fed yn 2016), tra bod Ynys Môn (14eg yn 2017; 13eg yn 2016) a Wrecsam (19eg yn 2017; 18fed yn 2016) yn parhau yn is na'u safle PYD. Mae Sir Ddinbych (17eg) wedi llithro dri safle yn is na'i safle PYD ac mae 7.5% o'r garfan yn derbyn eu haddysg ochr allan i'r prif lif (mae'r AauL eraill gyda 4% neu lai o'r garfan tu allan i'r prif lif – Sir y Fflint y lleiaf gyda 2.4%).
- Yn 2017, bu gostyngiad o 2.8% ers y flwyddyn flaenorol yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf (70.8%) o'i gymharu a -0.3% yn genedlaethol. Bu gostyngiad sylweddol ar berfformiad 2015-16 yn Ynys Môn a chynnydd bach yng Ngwynedd sef y 2 ALL ble mae pob ysgol yn cynnig Cymraeg Iaith Gyntaf. Nid yw'r ffigyrau'n cynnwys data Llenyddiaeth er mwyn cymhariaeth.
- Yn 2017, bu cynnydd o 1.3% yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni A*-C mewn Iaith Saesneg TGAU (61.6%) o'i gymharu â 0.3% yn genedlaethol. Yr Awdurdod Lleol sy'n perfformio orau yw Sir y Fflint (65.4%) tra bo Wrecsam â'r perfformiad isaf (57.7%). Bu gwelliannau sylweddol mewn 2 ALL (Conwy +5.4% a Wrecsam +5.7%). Nid yw'r ffigyrau'n cynnwys data Llenyddiaeth er mwyn cymhariaeth.
- Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni A*-C mewn Mathemateg (56.3%) yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (60%). Mae canlyniadau GwE wedi lleihau yn sylweddol o'i gymharu â 2016. Yr Awdurdod Lleol sy'n perfformio orau yw Sir y Fflint (62.3%) tra bo Wrecsam â'r perfformiad isaf (51.7%). Dim ond mewn ychydig o ysgolion yn y rhanbarth y gwelwyd gwelliant ar berfformiad 2016 mewn Mathemateg. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd A*-C mewn TGAU Rhifedd (57.6%) 1.3% yn uwch na pherfformiad 2017 mewn Mathemateg. Mae angen dadansoddi pellach i gyfrifo canran y disgyblion a gyflawnodd naill ai Mathemateg neu Fathemateg Rhifedd (hynny yw, y ffigwr sy'n cyfrannu at y L2+).
- Yn 2017, bu cynnydd o 0.5% yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni 5A*-A (14.5%). Mae perfformiad 2.4% yn is na'r targed (16.9%) a 0.5% yn is na'r rhagamcan terfynol (15%). Cafwyd gwelliant ar berfformiad 2015-16 mewn 3 ALL rhanbarthol (Gwynedd, Conwy a Wrecsam).
- Nid oes gwybodaeth lawn ar gael eto ar berfformiad 2017 yn y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio, Lefel 1, Lefel 2 a Gwyddoniaeth (data anghyflawn nad yw wedi'i wirio wedi'i gynnwys yn Atodiad 4).

CYFNOD ALLWEDDOL 5

Mae'r model cyflwyno ar gyfer Cyfnod Allweddol 5 yn amrywio oddi fewn awdurdodau ac ar draws y rhanbarth. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno un ai gan ysgolion unigol, colegau 6ed dosbarth, colegau addysg bellach neu ysgolion (a cholegau) yn cydweithio o fewn consortiwm.

O'r herwydd mae'n anodd dod i gasgliad ystyrlon am berfformiad Cyfnod Allweddol 5 yr ysgolion o fewn y rhanbarth. Er hynny, mae'r data isod yn awgrymu fod angen gwella perfformiad A*-C ac A*-A ar draws y rhanbarth.

Mae'r dadansoddiad a ganlyn ym amrwd iawn gan ei fod yn seiliedig ar ddata dros dro CBAC a ddaeth ar gael ar 17 Awst 2017 (ac eithrio Wrecsam sy'n cynnwys pob bwrdd arholi).

- Yn 2017, mae'r ganran o ddisgyblion yn yr ysgolion rhanbarthol a lwyddodd i ennill graddau A*-A wedi cynyddu 2% i 21.4%. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (25%).
- Yn 2017, mae'r ganran o ddisgyblion a lwyddodd i ennill graddau A*-C (73.2%) hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Cynyddodd y ganran a lwyddodd i ennill graddau A*-E (97.5%) ychydig ond mae'r ffigwr yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (97-7%).

Bydd angen cwblhau dadansoddiad manwl yn dilyn cyhoeddiad y Set Data Craidd a chraffu ar berfformiad pynciau penodol yn yr ysgolion.

PRIF AGWEDDAU SYDD ANGEN SYLW

ASESIADAU ATHRAWON CS, CA2 a CA3

- Cynyddu cyflymder y gwelliant yn y Cyfnod Sylfaen yn Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych.
- Codi safonau mewn Cymraeg Iaith Gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.
- Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Conwy yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Gwella perfformiad mewn Iaith Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 yng Nghonwy a Sir Ddinbych.
- Cau'r bwlch rhwng y rhywiau yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Gwella perfformiad Awdurdod Lleol Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 3.
- Gwella perfformiad dysgwyr PYD, yn enwedig mewn Iaith Saesneg.
- Gweithredu strategaethau i wella tracio, ymyriad ac atebolrwydd er mwyn cau'r bwlch ymhellach rhwng perfformiad a tharged, yn enwedig ar y lefelau uwch.

CYFNOD ALLWEDDOL 4

- Sicrhau bod cynlluniau busnes L3 yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r angen am raglenni cefnogaeth pwrpasol wedi'u targedu ar lefel ALL ac ysgolion unigol er mwyn gwella perfformiad yn sylweddol yn y prif ddangosydd a'r pynciau craidd.
- Sicrhau bod rhaglen benodol ar gyfer cynnal neu wella safonau CA4 ymhob ysgol uwchradd a bod a rhaglen honno wedi'i chytuno gyda'r Corff Llywodraethu.
- Sicrhau bod cynlluniau cefnogaeth cynhwysfawr ar waith a'u bod yn cael eu cyflwyno yn effeithiol i ysgolion ar y rhestr risg uchel, a chytuno ar weithgarwch dilynol ac amserlen gydag AauLL lle bo unrhyw bryderon am gyflymder y cynnydd.
- Lleihau yn sylweddol yr amrywiaeth mewn perfformiad rhwng yr AauLL a'r ysgolion sydd â'r perfformiad uchaf/isaf yn y prif ddangosyddion a'r pynciau craidd.
- Dwysau'r cydweithio gyda'r AauLL er mwyn mynd i'r afael â phryderon sylweddol mewn ysgolion uwchradd sydd wastad yn tanberfformio.
- Gwella perfformiad rhanbarthol mewn Mathemateg a Mathemateg Rhifedd.
- Gwella perfformiad dysgwyr PYD.
- Gwella effeithiolrwydd Uwch Dimau Arwain a Sicrhau Ansawdd a phrosesau atebolrwydd yng nghyfnod allweddol 4.
- Gwella effeithiolrwydd arweinwyr canol mewn Sicrhau Ansawdd a phrosesau atebolrwydd yng nghyfnod allweddol 4 ac wrth arwain y dysgu/addysgu, asesu a thracio.
- Sicrhau bod y cwricwlwm ym mhob ysgol wedi'i greu, ei gynllunio a'i gyflwyno er gwella perfformiad hyd yr eithaf yn y dangosyddion allweddol.
- Sicrhau gweithredu mwy cadarn i wirio pa mor briodol yw targedau a chynnydd tuag at dargedau a sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol ac i fynd i'r afael â thanberfformiad/ysgolion sy'n sefyll yn eu hunfan [yn benodol yng nghyd-destun data llorweddol].
- Sicrhau mwy o gydweithio Ysgol-i-Ysgol effeithiol [ar bob lefel] i ledaenu arfer orau.

CA5

- Gwella yn gyffredinol perfformiad Lefel A ac yn enwedig ar y graddau uwch
- Sicrhau fod gan GwE gynhwysedd briodol i gefnogi a herio perfformiad CA5 yn effeithiol
- Datblygu model rhanbarthol ar gyfer tracio a gwerthuso perfformiad yn CA5 a craffu ar berfformiad pynciau penodol

ATODIAD 1 CYFNOD SYLFAEN

Tabl 7: Cyfnod Sylfaen - deilliant disgwylledig

DCS / FPI	2015		2016		2017		Cynnydd / Progress	
	%	S/R	%	S/R	%	S/R	16 -> 17	15 -> 17
GwE	85.9	4	86.2	3	87.0	3	0.8	1.1
EAS	88.0	1	88.8	1	89.2	1	0.4	1.2
ERW	87.1	3	85.9	4	85.9	4	0.0	-1.2
CSC	87.6	2	88.6	2	88.6	2	0.0	1.0
Cymru / Wales	86.8		87.0		87.3		0.3	0.5

DCS / FPI	2015		2016		2017		Cynnydd / Progress	
	%	S/R	%	S/R	%	S/R	16 -> 17	15 -> 17
Ynys Mon (7)	86.2	15	84.7	20	85.8	17	1.2	-0.4
Gwynedd (4)	86.8	11	86.8	14	86.6	15	-0.2	-0.1
Conwy (9)	82.9	21	83.9	21	84.0	21	0.1	1.1
Denbighshire (14)	86.4	13	87.5	10	85.3	20	-2.2	-1.1
Flintshire (6)	87.0	9	86.9	13	89.5	5	2.6	2.5
Wrexham (10)	85.5	19	86.6	15	88.4	11	1.9	2.9
GwE (1)	85.9	4	86.2	3	87.0	3	0.8	1.1
Cymru / Wales	86.8		87.0		87.3		0.3	0.5

*Nifer mewn cromfachau yw'r safle PYD (1 flwyddyn)

Cymraeg D5+ / Welsh First Language O5+	2015		2016		2017		Cynnydd / Progress	
	%	S/R	%	S/R	%	S/R	16 -> 17	15 -> 17
GwE	88.8	4	87.8	4	89.1	4	1.3	0.4
EAS	91.6	3	93.4	2	92.4	2	-1.0	0.8
ERW	92.2	2	90.9	3	91.1	3	0.2	-1.1
CSC	94.0	1	93.9	1	93.0	1	-0.9	-1.0
Cymru / Wales	91.3		90.7		90.9		0.2	-0.4

Cymraeg D5+ / Welsh First Language O5+	2015		2016		2017		Cynnydd / Progress	
	%	S/R	%	S/R	%	S/R	16 -> 17	15 -> 17
Ynys Mon (7)	89.8	18	86.2	21	90.3	16	4.1	0.5
Gwynedd (4)	88.4	20	88.7	17	88.3	19	-0.4	-0.1
Conwy (9)	84.6	21	84.5	22	87.2	20	2.7	2.6
Denbighshire (14)	91.9	12	89.6	16	90.6	14	1.0	-1.3
Flintshire (6)	91.2	15	88.1	20	94.1	7	5.9	2.9
Wrexham (10)	89.2	19	88.4	18	88.7	18	0.3	-0.4
GwE (1)	88.8	4	87.8	4	89.1	4	1.3	0.4
Cymru / Wales	91.3		90.7		90.9		0.2	-0.4

- Sefydlu haen arweinyddiaeth newydd o fewn y gwasanaeth, gyda thri uwch arweinydd ar gyfer y cynradd, yr uwchradd, ac ar gyfer goruchwyllo datblygiadau traw-sector gyda Dyfodol Llwyddiannus (Cwricwlwm i Gymru).
- Cryfhau'n sylweddol y model uwchradd rhanbarthol i gynnwys chwe swyddog arweiniol uwchradd sy'n cysylltu â phob un o'r chwe awdurdod lleol.
- Mabwysiadu model arweinyddiaeth ddosranedig ble mae arweinwyr portffolio yn atebol am yrru gwelliannau mewn meysydd allweddol.
- Penodi arweinydd uned ansawdd a data rhanbarthol

Wrth bwyso a mesur cynnydd GwE wrth roi sylw i bob argymhelliad, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- A yw'r consortiwm wedi deall y rhesymau y tu ôl i'r argymhelliad?
- A yw'r consortiwm wedi cymryd camau rhesymol i fynd i'r afael â'r argymhelliad yn llwyddiannus, gan ystyried ei fan cychwyn, yr amser rhwng yr arolygiad a'r ymweliad dilynol a chymhlethdod y materion i fynd i'r afael â nhw?
- A yw'r consortiwm wedi cael ei gynorthwyo'n briodol i fynd i'r afael â'r argymhellion gan ei awdurdodau lleol partner?

- A yw'r consortiwm wedi sicrhau bod newidiadau sy'n deillio o'i gynnydd wrth fynd i'r afael â phob argymhelliad wedi cael eu hymgorffori'n ddigonol yn ei arferion gweithio i sicrhau gwelliant cynaledig?
- yn yr amser rhwng yr arolygiad a'r ymweliad dilynol
- cyflymder y gwelliant yn sgil yr adolygiad trylwyr;
- effaith cyflwyno'r meysydd llafur newydd mewn pynciau craidd, ar ganlyniadau cyfnod allweddol 4 yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol yn 2017

Mae astudiaethau achos ar gael sy'n dangos effaith dull diwygiedig GwE o fynd i'r afael â gwella ysgolion ar lefel genedlaethol, rhanbarthol, lleol ac ysgol unigol.

A1: Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad yr holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.

Defnyddio Data

Yn dilyn yr arolygiad craidd, mae GwE wedi bod yn gweithredu prosesau cadarn ac effeithiol i sicrhau bod data perfformiad allweddol yn cael ei ddadansoddi mewn ffordd fwy fforensig a diagnostig ar lefel ranbarthol, lleol ac ysgol unigol. Rhoddwyd rhaglen hyfforddiant a chefnogaeth gyfansawdd ar waith i gefnogi ymgynghorwyr newydd gyda'r ffordd newydd o weithio. O ganlyniad, bydd arweinwyr ac ymgynghorwyr her unigol yn defnyddio data, fel rhan o'r drefn, i:

- ddadansoddi perfformiad ar draws y rhanbarth;
- adnabod, yn fanwl gywir, meysydd allweddol i'w gwella;
- arfarnu effaith rhaglenni ymyrraeth penodol ar lefel cyrhaeddiad disgyblion;
- monitro a thracio cynnydd ar lefel ranbarthol, ALI unigol, ac ysgol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion;
- herio a chefnogi arweinwyr ysgol gyda'u taith tuag at welliant

Drwy ddadansoddi data yn gadarn, mae hyn wedi arwain at dargedu adnoddau yn fwy effeithiol, megis y dull gweithredu haenedig sydd wedi'i fabwysiadu ym mhob pwnc craidd yn CA4 ar gyfer 2017-18.

Mae Uwch Arweinwyr bellach yn defnyddio data yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant, yn ranbarthol a lleol, yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Craffir ar ddata a gwybodaeth yn fwy cadarn i fonitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu cytûn. Mae ansawdd y cynllunio, ar bob lefel, ar gyfer 2017-18 yn tanlinellu'r newid. O ganlyniad, mae ansawdd yr wybodaeth a rennir gyda'r Pwyllgor Rheoli wedi gwella'n sylweddol, fel bod modd i aelodau graffu a herio'r gwasanaeth yn sylweddol.

Gosod targedau

Cytunwyd ar dargedau heriol tair blynedd ar lefel ranbarthol, lleol, ysgol a disgybl. Caiff targedau a rhagamcanion eu herio'n gadarn, fel rhan o'r drefn. Mae holl dargedau'r Awdurdodau Lleol wedi'u seilio ar y canlynol:

- Casglu targedau gan ysgolion unigol
- Defnyddio safle PYD pob awdurdod i ragdybio perfformiad disgwylledig
- Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth leol

Pennir targedau ranbarthol drwy gyfrifo'r niferoedd disgyblion sydd eu hangen i gyrraedd targedau cytûn yr ALI, a'u cyfuno i gynhyrchu gwerth ranbarthol. Cytunwyd ar dargedau ac fe'u rhannwyd gyda'r holl randdeiliaid perthnasol. Adolygir targedau Cyfnod Allweddol 4 ar ôl dadansoddi canlyniadau 2017 yn fuan.

O fewn y model uwchradd diwygiedig, caiff pob ysgol Raglen Gefnogaeth gyfansawdd sy'n diffinio sut mae GwE yn targedu cefnogaeth ac

adnoddau i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol mewn meysydd â blaenoriaeth. Wrth gynnal rhaglen strwythuredig o ymweliadau adolygu yn ystod 2016-17, sicrhawyd ein bod yn adnabod meysydd ac agweddau i'w gwella mewn llawer o ysgolion sydd mewn risg, a hynny'n fwy effeithiol a phendant. Mae ansawdd a miniogrwydd y cynlluniau cefnogaeth, yn ogystal â'r defnydd o adnoddau sylweddol i roi sylw i'r gwelliannau angenrheidiol, yn dangos yn glir y camau effeithiol a gymerwyd i wella'r defnydd o ddata a gwybodaeth ar draws y rhanbarth.

Tracio

Mae GwE yn arwain datblygiadau ar system rheoli gwybodaeth gyfansawdd a fydd yn darparu gwybodaeth fanwl a dadansoddiad o berfformiad ysgolion unigol i GwE. Mae hyn hefyd yn cynnwys tracio 'data byw' ar lefel ysgol uwchradd. Gyda'r system newydd, sicrheir bod y drafodaeth gydag arweinwyr a rhanddeiliaid yn finocach.

Mae hyn yn hwyluso cyfathrebu mwy effeithiol, ac hefyd yn rhoi modd i ni gytuno ar raglenni ymyrraeth sy'n fwy amserol a miniog gydag ysgolion, a thargedu adnoddau i feysydd sydd â blaenoriaeth, a hynny'n fwy effeithiol a chyflymach. Bydd y system wybodaeth newydd hefyd yn cynnal ysgol rithiol 'arfer orau', a fydd yn modelu disgwyliadau GwE ar bob lefel o fywyd ysgol.

Mae GwE wedi meithrin perthynas effeithiol iawn gyda Phrifysgol Bangor ar Brosiect "Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith" (CIEREI) i arfarnu effaith agweddau ar waith GwE. Bydd data a dadansoddiad arfarnol yn rhoi'r sefydliad mewn gwell sefyllfa i farnu gwerth am arian a chynllunio i'r dyfodol. Mae'r Rhaglen Her a Chefnogaeth ddiwygiedig i'r Uwchradd, ac elfennau sydd wedi'u targedu o blith y rhaglenni dysgu proffesiynol mewn arweinyddiaeth, wrthi'n cael eu harfarnu.

Drwy wella'r modd y caiff data ei ddadansoddi, a gyda threfn finocach ar gyfer gosod targedau a thracio manwl gywir, bu effaith cadarnhaol ar ddata perfformiad allweddol. Mae perfformiad wedi gwella yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen, yn gyflymach na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag, yn 2017, mae'n dal angen gwella perfformiad ym mhedwar o'r awdurdodau lleol, ac mae cynlluniau manwl i roi sylw i'r anghysondebau a nodwyd.

Mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a 3 wedi gwella'n dda dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2017, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi sicrhau mai GwE yw'r consortiwm sy'n perfformio uchaf yn y dangosyddion allweddol hyn, gyda 5 o'r 6 awdurdod lleol yn perfformio'n well nag awdurdodau tebyg, ar sail hawl i brydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad ar drothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Ar ben hynny, mae'r bwlch rhwng GwE a'r ddau gonsortiwm sy'n perfformio'n uwch wedi cau'n sylweddol.

Mae dadansoddiad GwE o ysgolion sydd ar fin cael eu harolygu yn cyd-fynd â barnau Estyn, yn well nag unrhyw ranbarth arall dros dreigl tair blynedd.

Cynnydd:

A2: Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.

Mae hunan arfarnu a phrosesau cynllunio gwelliant, ar bob lefel, bellach wedi'u gwreiddio mewn darparu gwasanaethau gwella ysgolion. Ymhlith y prosesau hyn mae:

- fframwaith atebolrwydd cadarn;
- arfarnu data yn fanwl;
- cynllunio busnes manwl, ar bob lefel, sy'n bwydo i'r cynllun lefel un;
- cynllun busnes awdurdod lleol manwl sy'n adlewyrchu materion lleol yn fanwl gywir; a'r
- adroddiad blynyddol.

Yn dilyn yr arolygiad craidd, ceir fframwaith atebolrwydd cadarn sy'n gofalu bod gan bob maes gwasanaeth swyddog arweiniol dynodedig sydd wedi'i enwebu. Mae pob swyddog arweiniol enwebedig yn gyfrifol am ddatblygu cynllun busnes manwl i'w faes gwasanaeth, sy'n cynnwys dyddiadau cwblhau pendant, goblygiadau o ran hyfforddiant a meini prawf llwyddiant sy'n fesuradwy. Mae'r blaenoriaethau cytûn yn y cynlluniau busnes yn seiliedig ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu pob chwarter, ac adroddir ar y canfyddiadau i'r uwch arweinwyr a'r bwrdd rheoli. Caiff cynnydd ei raddio'n briodol, a bydd uwch arweinwyr yn herio unrhyw lithriad mewn cynnydd disgwyledig. Drwy adolygu'r cynlluniau busnes yn rheolaidd ar bob lefel, gall uwch arweinwyr arfarnu'n fanwl gywir y cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynlluniau busnes lefel uchel. Drwy hyn, sicrhewr bod y cynlluniau busnes yn aros yn hyblyg i gynnwys blaenoriaethau newydd yn ystod y cyfnod monitro, os oes angen. Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd her arweiniol i'r uwchradd. Ym mhob cynllun, ceir materion allweddol o fewn yr awdurdod lleol, ynghyd â chynllun gwella unigryw i roi sylw i'r heriau penodol. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei adolygu'n gyson mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd her arweiniol a'r pennaeth gwasanaeth. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at uwch arweinwyr GwE yn amserol.

Mae'r prosesau arfarnu sydd bellach ar waith yn gylchol a pharhaus. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr. Mae'r fframwaith atebolrwydd a'r prosesau monitro manwl yn ffurfio rhan sylfaenol o ymroddiad GwE i gynnal gwelliant. Mae'r drefn yn cyfrannu'n sylweddol at reoli a datblygu unigolion a thimau yn effeithiol, er mwyn iddyn nhw, a'r sefydliad, allu perfformio ar lefel uchel. .

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ddogfen glir a chyfansawdd sy'n rhoi arfarniad trylwyr a manwl gywir o sut mae'r gwasanaeth yn perfformio, ar hyn o bryd, ar draws y rhanbarth. Mae arweinwyr yn gwneud gwell defnydd o ystod cyfansawdd o ddata perfformiad, y maent yn ei ddadansoddi'n gadarn, i gymharu perfformiad y chwe awdurdod lleol gydag awdurdodau lleol tebyg, ar sail hawl PYD, perfformiad y rhanbarth o gymharu ag eraill ar draws Cymru, a chyflymder y gwelliant o ran cyflawni'r targedau cytûn. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r Adroddiad Blynyddol a'r blaenoriaethau yng nghynlluniau busnes y gwasanaeth, sydd wedi'u hadnabod yn ôl risg ac effaith.

Mae GwE yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor ar Brosiect "Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith" (CIEREI) i sefydlu systemau mwy effeithiol i arfarnu effaith ei waith dros gyfnod amser hwy. Bydd data a dadansoddiad arfarnol yn helpu GwE ymhellach i allu barnu gwerth am arian a chynllunio i'r dyfodol.

Drwy'r gwaith a wnaed yn ddiweddar i ddatblygu dangosfwrdd ysgol, rhydd hyn ddata cyfredol a pharhaus i GwE. Mae hyn yn hwyluso cyfathrebu, cefnogi a herio ar lefel uwch rhwng y rhanddeiliaid allweddol, ac yn gadael i GwE fonitro, yn fwy effeithiol ac amserol, effaith y gwaith a chynnydd ysgolion yn erbyn blaenoriaethau cyffredin. Drwy gyfrwng y dangosfwrdd, mae modd defnyddio data yn fwy effeithiol i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar berfformiad pob dysgwr ac ysgol ar draws y rhanbarth. Mae hefyd yn rhoi modd i'r gwasanaeth gwella ysgolion dargedu ei adnoddau yn fwy effeithiol i gyflawni ei flaenoriaethau, ac addasu ac ail gyfeirio adnoddau yn gyflym pan nad yw pethau yn llwyddo.

Cynnydd:

A3: Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.

Yn dilyn yr arolygiad craidd, aeth GwE ati i gynnal adolygiad trylwyr o'i weithdrefnau a'i drefniadau rheoli risg. Cyflwynwyd trefniadau trylwyr a chyfansawdd i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddarau'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Caiff y Gofrestr Risg ei hadolygu'n fisol yng nghyfarfod yr uwch dîm arweinyddiaeth, ac yn chwarterol gan y pwyllgor rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Mae'r trefniadau monitro a chynllunio busnes newydd yn sicrhau y caiff cynnydd ei adolygu a'i raddio'n briodol. Mae'r trefniadau monitro trosfwaol gan ymgynghorwyr her arweiniol ac uwch arweinwyr yn gofalu bod risgiau, ar bob lefel, yn cael eu rheoli'n briodol ac y cytunir ar ymyraethau mewn ffordd amserol a phriodol. Mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn monitro'r trefniadau hyn yn agos. Drwy reoli risg y rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y sefydliad, defnyddio adnoddau yn effeithiol, a chyflawni'r deilliannau fel y bwriadwyd.

Cynnydd:

A4: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.

Mae model cynllunio a rheoli perfformiad GwE yn nodi'n glir gweledigaeth, gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion y gwasanaeth. Mae'r cynllun strategaeth lefel uchel yn perthyn i gynlluniau manylach gan y tîm, gyda thargedau gwella mesuradwy a meini prawf llwyddiant eglur, er mwyn mesur cynnydd yn y rhanbarth yn fanwl gywir. Mae GwE wedi gosod amcanion heriol a mesuradwy erbyn 2020 i wella safonau, cwricwlwm, ac asesu, arweinyddiaeth, lles ac addysgu, sy'n ffurfio rhan o'r cynlluniau busnes ar bob lefel. Yn y cynlluniau sydd wedi'u costio'n llawn, ceir meini

prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny. Mae holl gynlluniau tîm GwE yn dilyn yr un patrwm, a chaiff eu perfformiad ei fonitro'n effeithiol ac yn fanwl. Mae llinellau atebolrwydd clir ar bob lefel o gynllunio ar draws GwE.

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn gryfder pwysig yn GwE. Mae cynlluniau manwl ar amryw o lefelau yn delio gyda phob agwedd ar waith GwE. Mae'r swyddogion dynodedig sydd yn gyfrifol am bob cynllun, yn amlwg yn cyfrannu at y cynllun busnes. Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl sydd wedi'u seilio ar y fframwaith hwn. Bydd Ymgynghorwyr Her yn adolygu eu cynlluniau pob chwarter, ac yn arfarnu cynnydd ac effaith. Yr adolygiadau hyn sy'n llywio gwaith arfarnu'r cynllun busnes, sy'n bwydo i arfarniad chwarterol y gwasanaeth fel bod hoel clir o arfarnu tîm yn yr adolygiad corfforaethol. Yna, caiff blaenoriaethau newydd o'r adolygiad gwasanaeth eu cynnwys mewn cynlluniau tîm yn gyflym.

Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd. Drwy rannu cynlluniau ac arfarniadau yn agored, mae hyn yn glynu timau at ei gilydd ac yn gyrru'r cydweithio cryf sydd wedi arwain at ddarparu gwasanaethau gwell, a gwella safonau ac arweinyddiaeth mewn ysgolion.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. Mae'r pwyslais hwn ar arfarnu ac adolygu yn arwain at welliant sylweddol.

Arferion llwyddiannus o fewn GwE sydd wedi arwain at y meddylfryd hwn. Rhaid i Ymgynghorwyr Her gyfiawnhau tanberfformiad ac adnabod risgiau posibl, gan gynnwys gorwario. Mae llinellau atebolrwydd clir wedi'u diffinio.

Cynnydd:

A5: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.

Yn dilyn yr adolygiad craidd, comisiynodd y pwyllgor rheoli adolygiad manwl o'r gwasanaeth gwella ysgolion, oedd yn cynnwys rôl y rhwydweithiau rhanbarthol. Derbyniodd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor ganfyddiadau'r adolygiad.

O ganlyniad, cafwyd naill ai gwared ar y rhwydweithiau rhanbarthol hanesyddol, neu eu cynnwys o dan reolaeth strategol GwE. Mae eu hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor yn glir.

Mae swyddog arweiniol enwebedig, cynllun busnes manwl a meini prawf llwyddiant mesuradwy ar gyfer pob maes. Y person arweiniol sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd ac adrodd pob chwarter i uwch reolwyr. Caiff materion sydd angen sylw eu cyfeirio at y Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol i'w hystyried ymhellach.

Cynnydd:

A6: Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.

Yn gyffredinol, mae prosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith gan y consortiwm. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol, a'r cyd bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ein cefnogi wrth gyflawni'r cynllun busnes diwygiedig dros dair blynedd. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod ein blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Gwnaed gwaith manwl i gysoni dyraniadau grant gyda'n blaenoriaethau. Mae ymgynghorwyr bellach yn herio ysgolion ar eu defnydd o arian grant, gyda set pendant o feini prawf i bwysu a mesur sut maent yn defnyddio'r arian hwn. Gwelwyd hyn yn lleihau'r anghysondebau rhwng ysgolion o ran gweld beth yw effaith defnyddio'r arian grant ar ddeilliannau disgyblion.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

Rydym bellach yn arfarnu ac yn adolygu ein gwasanaethau a'n mentrau tra byddant wrthi'n cael eu gweithredu, a hynny er mwyn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant a gwerth am arian.

Mae'r Mynegai Iechyd Sefydliadol (OHI) yn rhoi canfyddiadau manwl o ran sut mae GwE yn perfformio yn erbyn y naw elfen iechyd, sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Drwy hyn, ceir darlun trylwyr o ba mor iach yw'r sefydliad. Gellir cymharu'r canlyniadau yn erbyn eraill. Mae hefyd yn rhoi GwE mewn sefyllfa i weld cryfderau presennol y sefydliad, a'i hanghenion o ran datblygu, a'n helpu ni i ddeall ble mae angen i gweithredu er mwyn cynnal y lefelau presennol, neu wella arnynt dros amser.

Mae GwE yn gweithio gyda'r OECD i gynnal peilot i ddatblygu'r Consortia fel sefydliad sy'n dysgu. Rhennir unrhyw beth a ddysgir o'r gwaith hwn gyda rhanbarthau eraill, ac yn rhyngwladol, gan ein bod yn ymdrechu i ddatblygu ymhellach sefydliad bywiog ac iach.

Cynnydd:



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22/09/2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Rheoli Perfformiad Staff GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 Cyflwyno'r polisi diwygiedig ar gyfer Rheoli Perfformiad Staff GwE i'r Cyd-Bwyllgor ei gymeradwyo.

2.0 Cefndir ac Ystyriaethau

- 2.1 Diwygiwyd polisi Rheoli Perfformiad Staff GwE er mwyn iddo adlewyrchu'n well blaenoriaethau'r Cynllun Busnes Rhanbarthol, a'r strwythur atebolrwydd a staff newydd.
- 2.2 Bydd holl staff GwE yn mynd drwy drefn Rheoli Perfformiad (RhP) flynyddol yn yr Hydref pob blwyddyn. Yna, adolygir hyn pob chwarter i fonitro cynnydd, hyd yma, tuag at y targedau a'r amcanion a gytunwyd yn y RhP blynyddol.
- 2.3 Dylai'r adolygiadau rheoli perfformiad chwarterol gyd-fynd â threfn fonitro chwarterol blaenoriaethau Cynllun Busnes GwE, a rhoi cyfle i edrych ar berfformiad personol a chyflawniadau allweddol hyd yma. Bydd hefyd yn gyfle i adolygu, a diwygio, yr amcanion cyfredol os oes angen.
-

- 2.4 Bydd RhP staff yn cyd-fynd â Chynllun Busnes GwE. O ran yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, bydd y targedau RhP y cytunir arnynt hefyd yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gwella ysgolion, yn ymwneud â'r ysgolion a gefnogant.

3.0 Argymhellion

- 3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo'r polisi diwygiedig.

4.0 Goblygiadau Ariannol

- 4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 7.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE wrth adolygu'r polisi.

8.0 Atodiadau

- 8.1 Polisi Rheoli Perfformiad Staff GwE
8.2 Ffurflen Rheoli Perfformiad Staff GwE
8.3 Adolygiad cyn Rheoli Perfformiad Staff GwE

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

Adolygiad Rheoli Perfformiad

I'w gwblhau gan y gwerthusai cyn y cyfarfod adolygu

Gwerthusai:

Gwerthuswr:

Dyddiad:

Mae hwn yn gyfle i chi fyfyrio ar eich perfformiad a'ch cyflawniadau allweddol ers yr Adolygiad diwethaf neu ers dechrau yn eich Swydd. Bydd yr hyn y byddwch yn manylu arno yma yn rhan o'r drafodaeth gyda'ch Rheolwr Llinell yn eich Adolygu Rheoli Perfformiad ffurfiol a bydd yn llywio unrhyw dargedau cytunedig ar gyfer y dyfodol.

Yn eich barn chi, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, rhwch fanylion am eich perfformiad o dan y penawdau a ganlyn:

Cynnydd tuag at amcanion

Adolygiad o gynnydd tuag at amcanion:

Cyflawniadau perthnasol eraill

Pa gyfraniad sydd wedi ei wneud i gwrdd ag amcanion GwE ar gyfer 2020?

Sut mae'r gwerthusai yn arddel gwerthoedd GwE?

Pa gyfraniad sydd wedi ei wneud i gwrdd ag isafswm disgwyliadau GwE?

Sut mae'r gwerthusai yn datblygu ei rôl yn barhaus oddifewn i strwythur GwE?

Pan fo'n berthnasol

A. Cefnogi ysgolion i gynnal hunanwerthusiad a chyflwyno gwelliannau

B. Broceru cefnogaeth ac ymyriad effeithiol

C. Datblygu arweinyddiaeth ysgolion

D. Meithrin gallu rhwng ysgolion

Anfonwch y ddogfen hon, wedi'i chwblhau, at eich Rheolwr Llinell bum niwrnod cyn y cyfarfod Rheoli Perfformiad (RhP)

Polisi Rheoli Perfformiad Staff GwE

Bydd holl staff GwE yn ymgymryd â Rheoli Perfformiad (RhP) bob hydref. Bydd adolygiad interim chwarterol er mwyn monitro cynnydd hyd yma tuag at y targedau a'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y RhP blyneddol. Dylai'r adolygiadau rheoli perfformiad chwarterol gael eu halinio gyda monitro chwarterol blaenoriaethau Cynllun Busnes GwE, a chynnig cyfleoedd i fyfyrio ar berfformiad personol a chyflawniadau allweddol hyd yma. Bydd hefyd yn gyfle i adolygu a diwygio'r amcanion cyfredol os oes angen.

**** dalier sylw** - o ran 'staff digyswllt' ar secondiad i GwE, bydd angen i'r broses Rheoli Perfformiad ddilyn polisi'r ALL sy'n berthnasol i'r aelod o staff ac i'r Awdurdod Lleol y daethant ohono, a chydymffurfio â'r rhain.

Bydd RhP ar gyfer staff wedi'i alinio â Chynllun Busnes GwE. Mewn perthynas ag Ymgynghorwyr Sicrhau Gwelliant, bydd targedau RhP cytunedig hefyd yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gwella ysgol sy'n ymwneud â'r ysgol a gefnogir ganddynt.

1. Pwrpas RhP

Diben cyfarfodydd RhP yw trafod perfformiad gweithwyr hyd yma a'i adolygu, yn ogystal ag adnabod cyflawniadau. Mae'n gyfle i adnabod targedau penodol ar gyfer cyfraniad y gweithiwr at gyflawni amcanion a blaenoriaethau GwE sy'n bwydo targedau Cynllun Busnes GwE, ac adnabod unrhyw gefnogaeth sy'n ofynnol ar gyfer bodloni'r targedau hynny.

Mae'n gyfle i ystyried sut mae'r gwerthusai yn adlewyrchu gwerthoedd personol a gwasanaethol GwE sy'n cynnwys:

- Ymddiriedaeth;
- Dim tuedd;
- Tegwch;
- Parch at amryfaliaeth;
- Cefnogi a chydweithio;
- Dwyieithrwydd;
- Gwrthrychedd;
- Mynnu safonau uchel;
- Gonestrwydd.

Mae'n gyfle hefyd i ystyried sut mae'r gwerthusai yn cyfrannu i gwrdd ag isafswm disgwyliadau GwE sef:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth dda;
- Addysgu da;
- Cael gwared ar amrywiad o fewn ysgol;
- Dim un o ysgolion GwE i fod mewn categorïau statudol Estyn;
- Dysgu a lles disgyblion yn dda, o leiaf;
- Dyfodol Llwyddiannus ar waith

Dylai fod y gwerthusai yn datblygu ei rôl ei hunain yn barhaus o fewn strwythur GwE. Mae rheoli perfformiad yn gyfle i'r gwerthusai gytuno gyda'r rheolwr llinell ar agweddau o'r rôl neu bortffolio maent eisiau ddatblygu ymhellach. Gellid cynnwys hyn wedyn o fewn y swydd ddisgrifiad. Dylid rhannu unrhyw swydd ddisgrifiad diwygiedig gyda'r Rheolwr Rheoli Perfformiad.

Bydd RhP yn digwydd ar sail un i un gyda'r aelod o staff a'r Rheolwr Llinell. Cyn y cyfarfod, bydd y gwerthusai yn cwblhau adolygiad cyn-RhP a'i anfon at y Rheolwr Llinell bum niwrnod cyn y cyfarfod RhP un i un cytunedig.

2. Paratoi ar gyfer RhP

Gwaith paratoi gan y gweithiwr Unigol

Dylid cytuno ar ddyddiad yr adolygiad un i un o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod. Bydd gofyn i'r gweithiwr gwblhau adolygiad cyn-RhP i'w alluogi i fyfyrrio ar ei berfformiad dros y 12 mis diwethaf ac adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae'r meysydd i'w hystyried yn cynnwys:

- **Gofynion yn y swydd ddisgrifiad gyfredol**
- **Perfformiad yn erbyn targedau cytunedig**
- **Cyflawniadau perthnasol eraill**
- **Cefnogi ysgolion i gynnal hunanwerthusiad a chyflwyno gwelliannau**
- **Broceru cefnogaeth ac ymyriad effeithiol**
- **Datblygu arweinyddiaeth ysgolion**
- **Meithrin gallu rhwng ysgolion**

Dylai'r gwerthusai hefyd ystyried y canlynol:

- **Pa gyfraniad sydd wedi ei wneud i gwrdd ag amcanion GwE ar gyfer 2020?**
- **Sut mae'r gwerthusai yn arddel gwerthoedd GwE?**
- **Pa gyfraniad sydd wedi ei wneud i gwrdd ag isafswm disgwyliadau GwE?**
- **Sut mae'r gwerthusai yn datblygu ei rôl yn barhaus oddifewn i strwythur GwE?**

Dylid anfon yr adolygiad cyn-RhP at y Rheolwr Llinell bum niwrnod cyn y cyfarfod un i un.

Dylai paratodau'r Rheolwr Llinell ar gyfer yr Adolygu Datblygu Perfformiad blynyddol gynnwys y canlynol:

1. Sicrhau y cytunwyd ar ddyddiad y cyfarfod RhP bythefnos cyn y cyfarfod, anfon yr adolygiad cyn-RhP at y gweithiwr gan egluro ei bwrpas a gofyn iddo gael ei anfon yn ôl atoch o leiaf bum niwrnod cyn y cyfarfod RhP
2. Coladu data ysgol i adnabod effaith ymyriad gan y gwerthusai ar wella perfformiad ysgol (pan yn berthnsaol).
3. Coladu data sy'n ymwneud â thargedau blaenorol neu ddangosyddion perfformiad allweddol y swydd
4. Pan yn berthnasol, myfyrio ar berfformiad yr unigolyn yn erbyn safonau cenedlaethol sy'n cynnwys:
 - Cefnogi hunan arfarniad a gwelliant ysgol
 - Adeiladu cefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol
 - Datblygu arweinyddiaeth ysgol
 - Adeiladu cynhwysedd ysgol i ysgol
5. Adolygu agweddau allweddol ar gyfarfodydd un i un drwy gydol y flwyddyn a'u crynhoi
6. Ystyried unrhyw adborth am berfformiad y gwerthusai a gafwyd gan gwsmeriaid neu gydweithwyr.
7. Ystyried canlyniadau unrhyw arolygon a allai fod yn berthnasol
8. Adolygu perfformiad yn erbyn targedau blaenorol y cytunwyd arnynt a thargedau penodol yn y Cynllun Busnes y mae'r gwerthusai yn gyfrifol/rhannol gyfrifol amdanynt

Cynnal y cyfarfod Adolygu RhP a chwblhau'r cofnod RhP

1. Egluro pwrpas y RhP sef:
 - a. Trafod perfformiad a chynnydd dros y 12 mis diwethaf mewn perthynas â swydd y gweithiwr
 - b. Adnabod cyflawniadau a llwyddiannau
 - c. Adolygu cynnydd yn erbyn targedau a nodwyd
 - d. Cytuno ar unrhyw gefnogaeth i gefnogi targedau a pherfformiad yn y dyfodol

2. Cyfeirio at yr adolygiad cyn-RhP a gwblhawyd gan y gweithiwr a thrafod y cynnwys gan:
 - a. ddefnyddio technegau cwestiynu Agored er mwyn darganfod rhagor o wybodaeth a fydd yn hwyluso dod i farn ar berfformiad
 - b. chwilio am atebion manylach i arddangos perfformiad
 - c. cyfeirio at feysydd cyfrifoldeb penodol os yw'n berthnasol
 - d. rhoi adborth agored a gonest yn gyffredinol ac amlinellu anghenion cadarnhaol yn ogystal ag anghenion datblygiadol.

3. Cyfeirio at y dystiolaeth a gafodd ei choladu cyn y cyfarfod, yn enwedig:
 - a. Cyflawniad yn erbyn targedau blaenorol y cytunwyd arnynt
 - b. Perfformiad ysgolion sydd a wnelo â'r gefnogaeth a ddarperir gan yr aelod staff
 - c. Camau gweithredu cynllun busnes a chyfrifoldeb
 - d. Adborth gan gwsmeriaid, cydweithwyr ac arolygon ysgol fel bo'n berthnasol
 - e. Agweddau ar gyfarfodydd un i un drwy'r flwyddyn

4. Adnabod targedau neu amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf a chytuno arnynt. Dylent fod yn ymwneud â'r Cynllun Busnes a thargedau penodol y gwerthusai ar gyfer Gwella Ysgol. Sicrhau bod y targedau yn rai CAMPUS:
 - **Cyraeddadwy** - gall y gweithiwr gyflawni'r targed
 - **Amserol** - erbyn pa bryd dylid ei gyflawni?
 - **Mesuradwy** - manylu ar beth fydd y dystiolaeth ar gyfer y deilliant a gyflawnwyd
 - **Penodol** - datgan y deilliant
 - **Uchelgeisiol**
 - **Synhwyrol** - yn berthnasol i'r busnes ac i'r swydd

Fel arfer, bydd tair amcan yn cael eu gosod ond yn achlysurol gall hyn amrywio pan geir cytundeb rhwng y gwerthusai a'r rheolwr llinell.

Dylai'r amcanion a osodir syrthio i un o dri chategori:-


 - Un amcan Rhanbarthol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Busnes
 - Un amcan yn gysylltiedig â gwaith o ddydd i ddydd y gwerthusai, a phan yn berthnasol, gall gynnwys ysgol neu grŵp o ysgolion
 - Amcan yn deillio o hunanasesiad / asesiad cyfoedion y gwerthusai

5. Adnabod unrhyw ddatblygiad staff/DPP sy'n berthnasol ar gyfer cefnogi'r gwerthusai i gyflawni'r targedau a nodwyd

6. Cwblhau'r cofnod adolygu RhP a'r Cynllun Gweithredu, ei lofnodi a'i anfon at y gweithiwr **o fewn pum niwrnod i'r cyfarfod Adolygu Datblygu Proffesiynol**, gofyn i'r gweithiwr ei lofnodi a'i ddychwelyd o fewn un wythnos

7. Cytuno ar ddyddiad y cyfarfod adolygu interim, a phan yn bosib, dyddiadau ar gyfer y flwyddyn gyfan.
8. Dylai'r gwerthysydd gydlofnodi holl ddogfennau RhP a dylid anfon copi at y Rheolwr Gyfarwyddwr fel cofnod electronig ag iddo fynediad cyfyngedig a chyfrinachol.

Cylch RhP Parhaus



Adolygiad Chwarterol

Cyfarfod 1:1 rhwng gweithiwr a'i reolwr llinell ble maent yn trafod:

- Cynnydd yn erbyn amcanion presennol
- Datblygiad personol
- Blaenoriaethau
- Pryderon
- Ychwanegu amcan newydd neu newid un gyfredol gan gytuno a'r hyfforddiant neu gefnogaeth

Rheoli Perfformiad - GwE

Gwerthusai:

Gwerthuswr:

Dyddiad:

I ba raddau y bodlonwyd amcanion 2016-2017?

Adolygiad Amcan 1
Adolygiad Amcan 2
Adolygiad Amcan 3
Pa gyfraniad sydd wedi ei wneud i gwrdd ag amcanion GwE ar gyfer 2020?
Sut mae'r gwerthusai yn arddel gwerthoedd GwE?
Pa gyfraniad sydd wedi ei wneud i gwrdd ag isafswm disgwyliadau GwE?
Sut mae'r gwerthusai yn datblygu ei rôl yn barhaus oddifewn i strwythur GwE?

Crynodeb o berfformiad cyffredinol

Amcanion Rheoli Perfformiad ar gyfer 2017-2018

Fel arfer, bydd tair amcan yn cael eu gosod ond yn achlysurol gall hyn amrywio pan geir cytundeb rhwng y gwerthusai a'r rheolwr llinell.

Amcan 1
Amcan 2
Amcan3

Datblygiad proffesiynol a/neu'r gefnogaeth sy'n ofynnol i fodloni amcanion
--

Sylwadau'r Gwerthusai

Llofnod y Gwerthusai:

Llofnod y Gwerthuswr:

Atodwch nodiadau ychwanegol os dymunir

Dylid cofnodi cyfarfodydd adolygu Rheoli Perfformiad ac atodi'r cofnodion i'r ffurflen hon (gweler isod).

Rheoli Perfformiad Adolygiad Chwarter 1

Gwerthusai:

Gwerthuswr:

Dyddiad:

Oes angen diwygio unrhyw un o'r amcanion yn dilyn y cyfarfod adolygu? Oes / Nac oes

Os 'oes' yna diwygiwch isod.

Amcan

Ydi'r gwerthusai angen datblygiad broffesiynol a/neu gefnogaeth ychwanegol i fodloni'r amcanion? Ydi / Nac ydi

Os 'ydi' ymhelaethwch isod.

Datblygiad proffesiynol a/neu'r gefnogaeth sy'n ofynnol i fodloni amcanion
--

Sylwadau'r Gwerthusai

Llofnod y Gwerthusai:

Llofnod y Gwerthuswr:

Atodwch nodiadau ychwanegol os dymunir

Rheoli Perfformiad Adolygiad Chwarter 2

Gwerthusai:

Gwerthuswr:

Dyddiad:

Oes angen diwygio unrhyw un o'r amcanion yn dilyn y cyfarfod adolygu? Oes / Nac oes

Os 'oes' yna diwygiwch isod.

Amcan

Ydi'r gwerthusai angen datblygiad broffesiynol a/neu gefnogaeth ychwanegol i fodloni'r amcanion? Ydi / Nac ydi

Os 'ydi' ymhelaethwch isod.

Datblygiad proffesiynol a/neu'r gefnogaeth sy'n ofynnol i fodloni amcanion

Sylwadau'r Gwerthusai

Llofnod y Gwerthusai:

Llofnod y Gwerthuswr:

Atodwch nodiadau ychwanegol os dymunir

Rheoli Perfformiad Adolygiad Chwarter 3

Gwerthusai:

Gwerthuswr:

Dyddiad:

Oes angen diwygio unrhyw un o'r amcanion yn dilyn y cyfarfod adolygu? Oes / Nac oes

Os 'oes' yna diwygiwch isod.

Amcan

Ydi'r gwerthusai angen datblygiad broffesiynol a/neu gefnogaeth ychwanegol i fodloni'r amcanion? Ydi / Nac ydi

Os 'ydi' ymhelaethwch isod.

Datblygiad proffesiynol a/neu'r gefnogaeth sy'n ofynnol i fodloni amcanion

Sylwadau'r Gwerthusai

Llofnod y Gwerthusai:

Llofnod y Gwerthuswr:

Atodwch nodiadau ychwanegol os dymunir



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 MEDI 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Targed Arbedion Effeithlonrwydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1. Gofyn i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynllun gweithredu'r targed arbedion effeithlonrwydd.

2.0 Cefndir

- 2.1 Roedd cyllideb 2016/17 yn adlewyrchu penderfyniad Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru i leihau cyfraniadau awdurdodau lleol at gyllideb graidd GwE o 1.6%, ac yn gosod targed arbedion cyfatebol i GwE.
- 2.2 Cynhwysir y targed arbedion effeithlonrwydd o £131,967 yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2017/18 o dan 'Arbedion i'w canfod'.

3.0 Cynllun Gweithredu

- 3.1 Ers ei sefydlu yn 2013/14, mae GwE wedi rheoli a gweinyddu cynnydd sylweddol a pharhaus yn nifer a gwerth y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru mewn blaenoriaethau gwella ysgol a gyllidir drwy grantiau penodol a ffynonellau cyllid ychwanegol.
- 3.2 Mae'r rhain yn cynnwys y Grant Gwella Addysg, y Grant Datblygu Disgyblion, Her Ysgolion Cymru, y TGAU/PISA newydd, Llythrennedd Gwyddonol, Ysgolion Arloesi, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth, Athrawon Newydd Gymhwyso, Dysgu yn y Gymru Ddigidol, Rhaglen Llythrennedd Corfforol mewn ysgolion ac ati.
-

- 3.3 Mae cynlluniau cyfredol Llywodraeth Cymru am ei thymor pum mlynedd 2016/17 i 2020/21 yn cynnwys ymrwymiad o £100 miliwn o arian grant ar gyfer safonau ysgolion, h.y. y Grant Codi Safonau.
- 3.4. Bernir bod costau Rheoli a Gweinyddu yn wariant cymwys o fewn nifer o'r grantiau penodol hyn. Gan fod GwE wedi amsugno'r llwythi gwaith ychwanegol o fewn ei adnoddau staff presennol, yna gellir cyflawni'r targed arbedion effeithlonrwydd drwy gymhwyso elfennau o gostau staff cyfredol i'r grantiau penodol perthnasol.
- 3.5 Petai lleihad sylweddol mewn cynlluniau gwella ysgolion a gyllidir gan grantiau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yna byddai angen adolygu (lleihau) y strwythur staffio bryd hynny.

4.0 Argymhelliad

- 4.1 Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cadarnhau cymhwyso elfennau o amser/costau rheolaeth, gweinyddu a phroffesiynol GwE i ddibenion a gyllidir gan grantiau, gan felly effeithio ar arbedion effeithlonrwydd i gyrraedd y targed o £131,967.

5.0 Goblygiadau Ariannol / Risgiau

- 5.1 Mae'r cynllun yn cyflawni'r targed Arbedion Effeithlonrwydd, ond mae'n ddibynnol ar fuddsoddiad parhaus Llywodraeth Cymru mewn blaenoriaethau gwella ysgol a gyllidir drwy grantiau penodol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 8.1 Paratowyd yr adroddiad hwn drwy ymgynghori â swyddog cyllid statudol yr awdurdod lletyol, sy'n cefnogi'r argymhelliad.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylw o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf wedi cydweithio gyda Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth baratoi'r adroddiad hwn, a rwyf yn cefnogi'r cynnwys.

Eitem 10

GwE: Cydbwyllgor 22/09/17



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	22 Medi 2017
TEITL	Cyllideb GwE 2017/18 – Adolygiad Chwarter 1af
PWRPAS	• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2017/18. • Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Mae adolygiad cychwynnol yma yn amcangyfrif gorwariant net o £10,660 yn erbyn y gyllideb, gyda'r prif reswm yn ymwneud gyda'r adleoli swyddfa ardal Fflint/Wreccsam.
- 1.2 Mae rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth:** **Chwarter 1: tanwariant (£14,026).**

Mae trosiant staff a'r cyfnod pryd roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr mewn swydd dros dro a rhan amser (Ebrill a Mai 2017) wedi arwain at danwariant un-tro cymharol fechan.

2.2 **Adeilad - Rhent:**

Chwarter 1: gorwariant £29,750.

Mae'r GwE yn adleoli ei swyddfa ardal Fflint/Wreccsam o'r 1af o Fedi, gyda'r gost flynyddol yn uwch na cost y swyddfa flaenorol (effaith 7 mis am eleni sydd wedi ei gynnwys uchod). Mae angen adnabod dull ariannu parhaol ar gyfer y cynnydd cost blwyddyn gyfan.

2.3 **Cludiant – Costau Teithio:**

Chwarter 1: tanwariant (£5,064).

Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn 2017/18.

2.4 **Arbedion 2016/17 i'w darganfod**

Chwarter 1 : niwtral

Mae'r mater yma yn destun adroddiad ar wahân i'r cyfarfod yma o'r Cyd Bwyllgor, sy'n amlygu a chadarnhau dull ariannu parhaol ar gyfer diwallu'r targed arbedion effeithlonrwydd gosodwyd yng nghyllideb 2016/17.

2.5 **Cyfraniadau Awdurdodau**

Mae'r addasiadau cymharol fychan i gyfraniadau Awdurdodau unigol yn adlewyrchu defnydd gwybodaeth 'Llyfr Gwyrdd' (dadansoddiad o asesiadau gwariant safonol ar wasanaethau unigol yr awdurdodau lleol) 2017/18 Llywodraeth Cymru.

3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2017/18 oedd (£738,572).

3.2 Mae cynllun busnes y GwE yn cynnwys manylion defnydd o'r gronfa.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2017/18 – Adolygiad Chwarter 1af 2017/18.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.

Adolygiad Cyllid 2017/18 : Chwarter Cyntaf Ebrill - Mehefin 2017

	Cyllideb Agoriadol £	Addasiadau £	Cyllideb Diwygiedig £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net £
<u>Gwariant</u>					
Gweithwyr					
Cyflogau					
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	801,843	43,885	845,728	831,702	(14,026)
- Ymgynghorwyr Her	2,282,484	411,772	2,694,256	2,694,256	0
- Staff ar Secondiad	0	195,694	195,694	195,694	0
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	0	(587,624)	(587,624)	(587,624)	0
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	38,957		38,957	38,957	0
Adeilad					
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	93,892		93,892	123,642	29,750
Cludiant					
Costau Teithio	125,559		125,559	120,495	(5,064)
Cyflenwadau a Gwasanaethau					
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	30,344		30,344	30,344	0
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	15,090		15,090	15,090	0
Ffioedd archwilio	7,663		7,663	7,663	0
Broceru	262,341		262,341	262,341	0
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd					
Cyfreithiol	5,237		5,237	5,237	0
Adnoddau Dynol	8,980		8,980	8,980	0
Cyllid	38,836		38,836	38,836	0
Technoleg Gwybodaeth	42,953		42,953	42,953	0
Arbedion 2016/17 i'w darganfod	(131,967)	131,967	(0)		0
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	463,003		463,003	463,003	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Addysg : Comisiynu Awdurdodau	3,546,340	(95,017)	3,451,323	3,451,323	0
Grant Gwella Addysg : Cynlluniau Uniongyrchol	811,868	825,573	1,637,441	1,637,441	0
Grant Codi Safonau	0	2,320,634	2,320,634	2,320,634	0
Llythrennedd a rhifedd - LIC	0	5,000	5,000	5,000	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal	671,600	172,500	844,100	844,100	0
Grant Her Ysgolion Cymru	0	25,641	25,641	25,641	0
Cefnogi Defnydd Iaith Anffurfiol - Plant a Phobl Ifanc	0	241,400	241,400	241,400	0
DPP - Bagloriaeth Cymru	20,833		20,833	20,833	0
Dysgu yn Cymru Digidol (LiDW)	112,647		112,647	112,647	0
Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion (PLPS)	68,750		68,750	68,750	0
Ysgolion Arloesi	0	1,906,250	1,906,250	1,906,250	0
CPCP	0	351,068	351,068	351,068	0
Cyfanswm Gwariant	9,317,252	5,948,743	15,265,995	15,276,656	10,660

	Cyllideb Agoriadol £	Addasiadau £	Cyllideb Diwygiedig £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net £
<u>Incwm</u>					
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd					
- Cyngor Ynys Môn (10.15%)	(413,489)	(1,027)	(414,516)	(414,516)	0
- Cyngor Gwynedd (17.68%)	(726,091)	3,725	(722,367)	(722,367)	0
- Cyngor Conwy (15.39%)	(629,249)	310	(628,939)	(628,939)	0
- Cyngor Dinbych (15.24%)	(620,104)	(2,438)	(622,542)	(622,542)	0
- Cyngor Fflint (22.70%)	(925,965)	(1,284)	(927,249)	(927,249)	0
- Cyngor Wrecsam (18.84%)	(770,317)	714	(769,602)	(769,602)	0
Incwm Secondiadau		(195,694)	(195,694)	(195,694)	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Addysg : Comisiynu Awdurdodau	(3,546,340)	95,017	(3,451,323)	(3,451,323)	0
Grant Gwella Addysg : Rheolaeth Uniongyrchol	(811,868)	(825,573)	(1,637,441)	(1,637,441)	0
Grant Codi Safonau		(2,320,634)	(2,320,634)	(2,320,634)	0
Llythrennedd a rhifedd - LIC	0	(5,000)	(5,000)	(5,000)	0
Grant Amddifadedd Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(671,600)	(172,500)	(844,100)	(844,100)	0
Grant Her Ysgolion Cymru	0	(25,641)	(25,641)	(25,641)	0
Cefnogi Defnydd Iaith Anffurfiol - Plant a Phobl Ifanc	0	(241,400)	(241,400)	(241,400)	0
DPP - Bagloriaeth Cymru	(20,833)		(20,833)	(20,833)	0
Dysgu yn Cymru Digidol (LiDW)	(112,647)		(112,647)	(112,647)	0
Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion (PLPS)	(68,750)		(68,750)	(68,750)	0
Ysgolion Arloesi	0	(1,906,250)	(1,906,250)	(1,906,250)	0
CPCP		(351,068)	(351,068)	(351,068)	0
Cyfanswm Incwm	<u>(9,317,252)</u>	<u>(5,948,743)</u>	<u>(15,265,995)</u>	<u>(15,265,995)</u>	<u>0</u>
Cyfanswm Net	<u>0</u>	<u>0</u>	<u>0</u>	<u>10,660</u>	<u>10,660</u>
<u>Memorandwm -</u>					
<u>Y Gronfa Tanwariant</u>					
			Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2017		(738,572)
<u>Cronfa Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth</u>					
			Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2017		(60,000)



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 Medi 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Calendr Cyfarfodydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar y rhaglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

2.0 Cefndir

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Nodwyd yr angen am gyfarfod ychwanegol ym mis Hydref.

3.2. Nodwyd y byddai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 14 Chwefror 2018 yn cyd-daro ag wythnos hanner tymor, ac felly bod angen ail drefnu'r cyfarfod.

3.3 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r cyfarfodydd diwygiedig fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

9.0 Atodiadau

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2017/18

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylw o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fydd rhaid trefnu cyfarfod o Gydbwyllgor GwE yn ystod Gorffennaf 2018 ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2017/18, ac hefyd ym Medi 2018 ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2017/18, sy'n statudol orfodol cyn 30 Medi.

Atodiad 1:

Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2017/18

CYFARFOD	DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD
Cyd-Bwyllgor GwE	22/09/2017	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	04/10/2017	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	22/11/2017	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	(dyddiad newydd) 21/02/2018	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	23/05/2018	10.30am	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn